

Babanod newydd-anedig mewn achosion gofal brys yng Nghymru a Lloegr

Awduron

Dr Rebecca Pattinson
Yr Athro Karen Broadhurst
Dr Bachar Alrouh
Dr Linda Cusworth
Dr Stephanie Doebler
Dr Lucy Griffiths
Rhodri Johnson
Ashley Akbari
a'r Athro David Ford.

Ynglŷn â'r adroddiad hwn

Mae'r adroddiad yn darparu data wedi'i ddiweddarau a dadansoddiad ar:

- nifer a chyfradd mynychder babanod newydd-anedig a phlant bach mewn achosion gofal ar lefel genedlaethol a rhanbarthol
- cyfran y gwrandawiadau gorchymyn gofal interim brys (ICO) yn ymwneud â babanod newydd-anedig a gynhelir ar fyr rybudd (diffinnir yn yr adroddiad fel o fewn saith niwrnod), fel gwrandawiadau brys (llai na thridiau), ac ar yr un diwrnod (heb yr un diwrnod o rybudd)
- nifer y gorchmynion amddiffyn brys (EPO) a wnaed ar gyfer babanod newydd-anedig a phlant bach, a chyfran yr achosion hyn sy'n mynd ymlaen i achosion a.31.

Mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod 1 Ebrill 2012 i 31 Mawrth 2020. Hwn yw'r pumed adroddiad yn y gyfres *Mewn Gofal o'u Geni*, ac mae'n dilyn:

- Broadhurst, K. et al. (2018). *Born into care: Newborns in care proceedings in England*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield
- Alrouh, B. et al. (2019). *Mewn gofal o'u geni: Babanod newydd-anedig a phlant bach mewn achosion gofal yng Nghymru*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.
- Griffiths, L.J. et al. (2020). *Mewn gofal o'u geni: Mil o famau mewn achosion gofal yng Nghymru. Iechyd a lles mamau, a chanlyniadau beichiogrwydd*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.
- Griffiths, L.J. et al. (2020). *Mewn gofal o'u geni: Mil o famau mewn achosion gofal yng Nghymru. Ffocws ar iechyd meddwl mamau*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Mae'r holl adroddiadau a'r crynodebau ar gael o: www.nuffieldfjo.org.uk

Awduron

Awduron yr adroddiad yw:

- Rebecca Pattinson, Prifysgol Caerhirfryn
- Karen Broadhurst, Prifysgol Caerhirfryn, Cyd-gyfarwyddwr y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol
- Bachar Alrouh, Prifysgol Caerhirfryn
- Linda Cusworth, Prifysgol Caerhirfryn
- Stephanie Doebler, Prifysgol Caerhirfryn
- Lucy Griffiths, Prifysgol Abertawe
- Rhodri Johnson, Prifysgol Abertawe
- Ashley Akbari, Prifysgol Abertawe
- David Ford, Prifysgol Abertawe, Cyd-gyfarwyddwr y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol.

Hoffai'r awduron ddiolch i'r aelodau tîm eraill a fu'n gysylltiedig â'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol—cydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe, a ariannwyd gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield—yn cynnwys Jon Smart, Kerina Jones a Simon Thompson (Prifysgol Abertawe).

Hoffai'r awduron gydnabod yr holl ddarparwyr data sy'n trefnu bod data ar gael ar gyfer ymchwil.

Hoffai'r awduron ddiolch i'r bobl ganlynol am eu cymorth gyda'r prosiect hwn: Lisa Harker, Cyfarwyddwr, Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield; Cafcass a Cafcass Cymru; Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru; a Llywodraeth Cymru. Yn ogystal, mae'r awduron yn diolch i'r adolygwyr allanol canlynol am eu sylwadau buddiol ar fersiynau o'r adroddiad hwn: Matthew Pinnell a Laura Scale (Cafcass Cymru); Saif Ullah (Cafcass); Yr Athro Marian Brandon, Prifysgol Dwyrain Anglia; a Dr Louise Roberts, Prifysgol Caerdydd. Rydym yn hynod ddiolchgar hefyd am y cyngor a'r sylwadau a ddarparwyd gan: Rehana Begum, 18 St John Street Chambers Manchester; Penny Kutz, Cafcass; HHJ Carol Atkinson; a Meistr Ustus Keehan.

Cyfeiriad a argymhellir

Pattinson, R. et al. (2021). *Born into care: Newborn babies in urgent care proceedings in England and Wales*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Cynnwys

Acronymau.....	
Rhagair.....	
Crynodeb gweithredol.....	1
1. Cyflwyniad.....	4
2. Cefndir.....	7
3. Methodoleg.....	11
4. Canfyddiadau.....	14
5. Trafodaeth.....	25
Rhestr achosion.....	30
Cyfeiriadau.....	30
Atodiad.....	33



Population Data Science
at Swansea University



Acronymau

ASP	cyfnod asesu a chefnogi
CMH	gwrandawriad rheoli achos
EPO	gorchmynion amddiffyn brys
ICO	gorchymyn gofal interim
NWIS	Gwasanaeth Gwybodeg GLG Cymru
PLO	Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus
PLWG	Y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus
TTP	Trydydd Parti y Gellir Ymddiried Ynddo

Rhagair

Mae'r gyfres ymchwil *Mewn Gofal o'u Geni* wedi datgelu'r cynnydd sydyn yn nifer y babanod newydd-anedig sy'n cael eu dwyn i ofal ledled Cymru a Lloegr. Mae hyn wedi codi cwestiynau difrifol ynglŷn â pham mae gymaint o fabanod yn destun y lefel ymyrraeth hon, a beth ellid ei wneud i atal peri bod angen camau o'r fath.

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r darlun diweddaraf, ac mae hefyd yn tynnu sylw at arfer awdurdodau lleol o ofyn am wrandawiadau brys mewn perthynas â'r achosion hyn. Lle mae angen ar fyrder i amddiffyn baban rhag niwed, gall camau gweithredu brys fod yn angenrheidiol a chymesur. Ond mae'n ymddangos bod gwrandawiadau byr rybudd, gan gynnwys gwrandawiadau a gynhelir ar yr un diwrnod â'r cais am ofal, wedi dod yn arfer cyffredin, sy'n codi pryderon difrifol ynghylch a yw penderfyniadau'n cael eu gwneud yn frysiog, heb waith paratoi priodol, a heb amser digonol i sicrhau bod y broses yn un deg a chyfiawn.

Mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yn ymroddedig i wella bywyd i blant a theuluoedd trwy roi data a thystiolaeth wrth galon y system cyfiawnder teuluol. Gyda'i gilydd, mae'r holl gyhoeddiadau yn y gyfres ymchwil *Mewn Gofal o'u Geni* yn helpu llywio trafodaethau ar lefel leol a chenedlaethol ynglŷn ag anghenion teuluoedd y mae eu plant bach dan risg o'u dwyn i ofal, a beth allai fod yn angenrheidiol i fodloni'r anghenion hynny'n well.

Rwyf yn ddiolchgar iawn i'r timau yn y Ganolfan Ymchwil Cyfiawnder Plant a Theuluoedd ym Mhrifysgol Caerhirfryn a'r grŵp Gwyddor Data Poblogaeth a Banc Data SAIL ym Mhrifysgol Abertawe am eu gwaith dadansoddi data arloesol parhaus.



Lisa Harker
Cyfarwyddwr, Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield

Crynodeb gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn darparu tystiolaeth newydd ynglŷn â'r nifer o fabanod newydd-anedig a phlant bach mewn achosion gofal yng Nghymru a Lloegr, yn ogystal â mynychder gwrandawiaidau brys yn yr achosion hyn.¹ Mae tystiolaeth newydd yn cael ei darparu hefyd ynglŷn â'r defnydd o orchmynion amddiffyn brys (EPO). Mae'r adroddiad yn ymateb i alwadau gan Lywydd Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus yr Is-adran Deuluoedd am ddadansoddi ac ymchwilio i ddata ymhellach gyda'r ffocws hwn (PLWG 2019; 2021).

Mae'r dadansoddiad o achosion plant bach yn seiliedig ar ddata a gasglwyd gan Cafcass a Cafcass Cymru yn y cyfnod wyth mlynedd rhwng 2012/13 a 2019/20 (blynnyddoedd cyllidol).²

Prif ganfyddiadau

- Yn Lloegr, **nifer gyfartalog y plant bach** mewn achosion gofal rhwng 2012/13 a 2015/16 oedd 5,305 y flwyddyn, o gymharu â 5,899 y flwyddyn rhwng 2017/18 a 2019/20. Yng Nghymru, nifer gyfartalog y plant bach mewn achosion gofal y flwyddyn oedd 366 rhwng 2013/14 a 2015/16, o gymharu â 455 rhwng 2017/18 a 2019/20.
- Fe wnaeth nifer y babanod newydd-anedig mewn achosion gofal yn Lloegr gynyddu o 2,425 yn 2012/13 i 2,914 yn 2019/20. Yng Nghymru, mae niferoedd wedi cynyddu o 145 i 241 dros yr un cyfnod, er i'r nifer ostwng i 203 yn 2019/20. Mae babanod newydd-anedig yn cyfrif am gyfran gynyddol o'r holl achosion yn ymwneud â phlant bach—ychydig dros eu hanner yn 2019/20.
- Mae nifer y babanod newydd-anedig mewn achosion gofal wedi cynyddu hefyd o'i mesur fel cyfradd mynychder (hynny yw, nifer yr achosion o fabanod newydd-anedig fesul 10,000 o enedigaethau byw yng Nghymru a Lloegr). Yn 2019/20, roedd 47.7 o fabanod newydd-anedig fesul 10,000 o enedigaethau byw yn destun achosion gofal yn Lloegr, i fyny o 34.9 fesul 10,000 yn 2012/13. Yng Nghymru, mae'r gyfradd yn uwch fyth—68.3 fesul 10,000 o enedigaethau byw yn 2019/20, i fyny o 41.1 yn 2012/13.
- Yn 2019/20, fe wnaeth 86.3% o achosion yn ymwneud â babanod newydd-anedig yn Lloegr a 74.8% o achosion yn ymwneud â babanod newydd-anedig yng Nghymru gofnodi gwrandawiad byr rybudd. Hynny yw, roedd llai na saith niwrnod rhwng gwneud y cais gan yr

Categoriadau'r Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass)

Mewn achosion lle mae awdurdodau lleol yn mynnu penderfyniad cyflymach yn dilyn cychwyn achos gofal, gellir gwneud cais am wrandawiad gorchymyn gofal interim brys (ICO). Mae Cafcass yn cynnig y categorïadau canlynol o ran y gwrandawiaidau hyn.

Gwrandawiaidau byr rybudd: cynhelir y gwrandawiad cyntaf lai na saith niwrnod o ddyddiad y cais gofal.

Gwrandawiaidau brys: cynhelir y gwrandawiad cyntaf lai na thridiau o ddyddiad y cais gofal. [Sylwer bod yr ymchwiliad yn yr adroddiad hwn yn mesur un neu ddau ddiwrnod.]

Gwrandawiaidau ar yr un diwrnod: cynhelir y gwrandawiad cyntaf ar yr un diwrnod â chyflwyno'r cais gofal, hynny yw, heb yr un diwrnod o rybudd.

¹ Yn yr adroddiad hwn, mae'r term 'plant bach' yn cynnwys plant o dan 52 wythnos oed ac mae'r term 'newydd-anedig' yn cynnwys babanod o dan bythefnos oed.

² Sylwer bod yr adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod hyd at 31 Mawrth 2020 ac mae yn y cyfnod 'cyn-COVID' yn fras felly.

awdurdod lleol a'r gwrandawriad cyntaf. Yn y mwyafrif o achosion, roedd rhybudd o rhwng un diwrnod a dau ddiwrnod rhwng y cais a'r gwrandawriad cyntaf.

- Mewn cyfran gweddol fawr a chynyddol o achosion babanod newydd-anedig yng Nghymru a Lloegr, caiff achosion eu cychwyn a'u gwrandawrio ar yr un diwrnod (h.y. nid oes yr un diwrnod rhwng y cais a'r gwrandawriad). Yn 2019/20, roedd tua un o bob chwe baban newydd-anedig yn destun gwrandawriad 'yr un diwrnod'. Yn Swydd Efrog a Humber, mae hyn yn codi i un o bob pedwar.
- Mae cyfraddau mynychder yn amlwg yn amrywio yn ôl rhanbarth.
 - Mae Llundain yn gwahaniaethu'n sylweddol iawn oddi wrth Gymru a llawer o ranbarthau Lloegr, yn benodol, y Gogledd Orllewin, y Gogledd Ddwyrain, a Swydd Efrog a Humber. Yn Llundain y ceir y cyfraddau mynychder isaf (24.9 o fabanod newydd-anedig fesul 10,000 o enedigaethau byw yn 2019/20), a chan Llundain a'r De Ddwyrain y mae'r gyfran isaf o wrandawriadau yr un diwrnod (9.3% ac 11.4% yn y drefn honno). Awgrymodd ymarferwyr a gyfrannodd at ymchwil gynharach fod y ffaith fod mwy o wasanaethau ataliol ar gael yn Llundain, fel lleoliadau mam a baban ac ansawdd yr eiriolaeth gyfreithiol, wedi arwain at lai o achosion plant bach yn cael eu cychwyn ar yr adeg geni (Mason a Broadhurst 2020).
 - Ar ben arall y sbectrwm y mae'r Gogledd Ddwyrain, lle mae cyfraddau mynychder wedi dyblu dros yr wyth mlynedd diwethaf, yn cynyddu o 34.0 fesul 10,000 o enedigaethau byw yn 2012/13 i 83.1 fesul 10,000 yn 2019/20. Dros gyfnod, mae cyfran yr achosion babanod newydd-anedig ar yr un diwrnod wedi dyblu yn y rhanbarth hefyd (i 41.3%)—yr uchaf o bell ffordd ledled Cymru a Lloegr.
 - Yn Swydd Efrog a Humber, er bod cyfran y gwrandawriadau ar yr un diwrnod yn is nag yn y Gogledd Ddwyrain, ar 26.8% yn 2019/20, mae'n cynyddu ac yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.
 - Mae nodweddion tebyg nodedig rhwng Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr o ran cyfraddau mynychder—68.0 a 66.2 o achosion babanod newydd-anedig fesul 10,000 o enedigaethau byw yn 2019/20 yn y drefn honno. Ochr yn ochr â'r Gogledd Ddwyrain, a Swydd Efrog a Humber—ac yn wahanol i ranbarthau eraill Lloegr—mae Cymru'n dangos tuedd sylweddol am i fyny yn ystadegol yn y gyfran o achosion ar yr un diwrnod.
- Yn Lloegr, mae plant bach yn fwy tebygol o fod yn destun ceisiadau am orchymyn amddiffyn brys (EPO) na phlant hŷn. Roedd plant bach a phlant hŷn a fu'n destun cais EPO yn debygol iawn o ymddangos yn destunau mewn achosion gofal o fewn cyfnod 28 diwrnod (neu o fewn yr un achos). Rhwng 2012/13 a 2019/20:
 - cafodd 86.1% o'r holl achosion eu cofnodi ar ôl hynny fel cais a.31
 - cafodd 89.0% o achosion yn ymwneud â phlentyn o dan un oed eu cofnodi ar ôl hynny fel cais a.31
 - cafodd 90.4% o achosion yn ymwneud â baban newydd-anedig eu cofnodi ar ôl hynny fel cais a.31.

Mae'r data hwn yn gwrthbrofi pryderon nad yw plant sy'n destun ceisiadau EPO yn ymddangos ar ôl hynny mewn achosion gofal.

- Yn gyffredinol, fodd bynnag, *nid* yw'r rhan fwyaf o fabanod a phlant yn dechrau'u siwrneiau drwy'r system cyfiawnder teuluol, am fod cais EPO wedi'i wneud. O ran yr holl blant, dim ond 6.5% o'r holl achosion ar gyfer achosion gofal oedd wedi'u rhagflaenu gan EPO, ac yn achos babanod newydd-anedig, roedd y mynychder lawn mor isel ar 7.7%.

Argymhellion

- Os gwrandawiadau byr rybudd, gwrandawiadau brys neu wrandawiadau ar yr un diwrnod yw'r norm bellach mewn achosion babanod newydd-anedig yng Nghymru a Lloegr, yna mae hyn yn awgrymu bod angen adolygiad helaeth o'r modd y cynhelir achosion gofal ar yr adeg geni. Mae gweithredu brys yn amharu'n sylweddol ar hawliau Erthygl 6 rhieni, ac nid yw er budd pennaf plant bach ychwaith lle mae gwaith asesu a chynllunio annigonol wedi'i wneud. Gallai llawer o'r argymhellion pwysig a amlinellir yn adroddiad terfynol y PLWG—gan gynnwys defnydd gwell a mwy amserol o'r broses cyn-achos/Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO), ffurflen wybodaeth newydd sy'n mynnu bod y sail ar gyfer gwrandawriad ICO brys yn cael ei nodi'n glir, hysbysiad cynnar i Cafcass a Cafcass Cymru cyn-geni, ac adolygiad o fynediad rhieni at gyngor cyfreithiol cyn-achos—gyflawni ymarfer gwell, gan alluogi proses benderfynu fwy amserol a chynhwysol ar gyfer babanod a phlant, lle cânt eu gweithredu'n ddigonol. Ond dylid rhoi ystyriaeth bellach i allu rhieni i gyfranogi'n ystyrlon yn y cyfnod ôl-enedigol uniongyrchol.
- Byddem yn argymhell archwilio ymhellach i arferion ardaloedd lleol er mwyn cael dealltwriaeth well o'r amrywiadau rhanbarthol amlwg yn y data.
 - Er y gall gwneud penderfyniadau brys ar gyfer babanod newydd-anedig fod yn angenrheidiol ac yn gymesur, mae'r nifer gynyddol o wrandawiadau ar yr un diwrnod yn destun pryder arbennig yn y Gogledd Ddwyrain, ac yn nodedig yn Swydd Efrog a Humber. Mae nifer o ffactorau rhyngberthynol yn debygol o fod dan sylw, gan gynnwys lefel y tlodi, argaeledd gwasanaethau i gefnogi mamau bregus a babanod, a pholisïau rhyddhau o'r ysbyty. Byddai cymharu awdurdodau lleol â phroffiliau demograffig tebyg, ond sy'n gwneud defnydd gwahanol iawn o wrandawiadau brys, yn taflu goleuni ar ysgogwyr gweithdrefn frys a beth gellid ei wneud i ddod ag achosion i'r llys mewn ffordd fwy cynlluniedig a chynhwysol yn deuluol.
 - O ystyried y cyfraddau uchel hanesyddol yng Nghymru, dylai'r cwmp ym 2019/20 yn y gyfradd mynychder yng Nghymru gael ei fonitro a'i ymchwilio ymhellach, o ystyried ar hyn o bryd bod y gostyngiad ond yn berthnasol i un flwyddyn. Ar hyn o bryd, ni allwn ddweud yn bendant fod prosiectau ataliol newydd yn lleihau'r angen i wahanu plant bach, ond bydd yn bwysig ymchwilio i'r berthynas hon ymhellach, dros gyfnod.

1. Cyflwyniad

Hwn yw'r pumed adroddiad yn y gyfres *Mewn Gofal o'u Geni*. Cafodd yr ymchwil ei dylunio a'i chwblhau gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol (FJDP)—sef cydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe. Mae'r gyfres yn canolbwyntio ar blant bach a babanod newydd-anedig mewn achosion gofal yng Nghymru a Lloegr, a'i nod yw adeiladu sylfaen dystiolaeth gadarn i lywio polisi ac arfer yn ymwneud â'r plant ieuengaf un yn y system cyfiawnder teuluol.³

Gan siarad yn uniongyrchol â chwestiynau a godwyd gan y Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus (PLWG) dan arweiniad Meistr Ustus Keehan (PLWG 2019; 2021), mae ffocws penodol yr adroddiad hwn ar achosion o achosion gofal a gychwynnir o dan a.31 Deddf Plant 1989, lle mae awdurdodau lleol yn gwneud cais am benderfyniad brys ar gyfer babanod newydd-anedig.⁴ Mae'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO) yn caniatáu i awdurdodau lleol ofyn am wrandawriad gorchymyn gofal interim brys (ICO) (a/neu wrandawriad rheoli achos rhagarweiniol (CMH)), lle mae pryderon diogelu mor fawr fel bod angen gwneud penderfyniadau'n gyflymach. Gall penderfyniadau a wneir mewn gwrandawriadau ICO brys arwain at wahanu plant bach oddi wrth ofal eu rhieni dros dro.

Er y bydd angen gweithredu ar fyr rybudd mewn rhai achosion er mwyn diogelu plant bach, mae'r adroddiadau interim a therfynol gan y PLWG (2019; 2021) yn codi cwestiynau treiddgar ynglŷn â nifer yr achosion lle mae ceisiadau o'r fath yn cael eu gwneud yng Nghymru a Lloegr. Yn ogystal, y pryderon anecdotaidd yw bod amrywio rhanbarthol nodedig yn hyn o beth. Gall ICO brys ddigwydd ar yr un diwrnod ag y mae'r awdurdod lleol yn gwneud cais i'r llys (ar yr un diwrnod), neu o fewn saith niwrnod i'r cais (byr rybudd). Ni fydd yr holl wrandawriadau ICO brys yn arwain at wahanu plentyn bach oddi wrth ofal ei rieni, ond bydd y mwyafrif yn gwneud, ac fel mae'r PLWG wedi nodi, gall y cyfryw benderfyniadau fod wedi'u seilio ar dystiolaeth gyfyngedig.⁵

O ystyried na ellir cychwyn achos gofal hyd nes y bydd plentyn bach wedi'i eni, gallem ddisgwyl mwy o frys yn achos babanod newydd-anedig. Fodd bynnag, mae pryderon cyffredinol bod rhai achosion babanod newydd-anedig yn cael eu cychwyn ar frys o ganlyniad i gynllunio a pharatoi annigonol yn ystod beichiogrwydd (Mason a Broadhurst 2020). Mewn cyferbyniad, gall asesu cadarn cyn-geni a chynadledda grŵp effeithiol gyda'r teulu osgoi'r angen am wahanu dros dro gan y deuir o hyd i roddwyr gofal o fewn rhwydweithiau teulu estynedig cyn bod baban yn cael ei eni. Mae'r detholiad canlynol o adroddiad interim PLWG yn nodi'r pryder hwn:

³ Yn yr adroddiad hwn, mae'r term 'plant bach' yn cynnwys plant o dan 52 wythnos oed ac mae'r term 'newydd-anedig' yn cynnwys babanod o dan bythefnos oed.

⁴ Yn 2018, fe wnaeth Llywydd yr Is-Adran Deuluoedd, Syr Andrew McFarlane, sefydlu PLWG rhyngddisgyblaethol i archwilio gweithrediad cyfraith gyhoeddus yn ymwneud â phlant. Roedd hyn i raddau helaeth yn ymateb i'r cynnydd mawr mewn achosion cyfraith gyhoeddus. Rhoddwyd y dasg i PLWG wneud argymhellion i arfer a gweithdrefnau presennol, a allai alluogi mwy o blant gael eu magu'n ddiogel o fewn eu rhwydweithiau teulu ac osgoi achosion llys teulu mwy ymyrrol.

⁵ Yn yr adroddiad cyntaf yn y gyfres *Mewn Gofal o'u Geni*, amcangyfrifom fod rhwng 12% ac 14% o achosion plant bach yn arwain at ddychwelyd i ofal rhieni (Broadhurst et al. 2018). Mae ymarferwyr wedi rhannu gyda'r tîm ymchwil y gwneir cais am ICO brys fel arfer pan fydd pryderon mor fawr y ceisir gwahanu baban o ofal rhieni ar unwaith.

Wrth eu cyflwyno, mae'r cais a'r datganiad i gefnogi yn aml yn darparu tystiolaeth annigonol o'r brys, ynghyd â'r camau a gymerwyd gan yr awdurdod lleol i osgoi'r angen am i'r cais gael ei wneud ar frys (para. 164, tud.76, 2019).

Galw sylweddol sy'n fwy na'r adnoddau sydd ar gael yw'r cyd-destun ymarfer presennol yn y llysoedd teulu yng Nghymru a Lloegr (Grŵp Hawliau Teulu 2018). Mae achosion sy'n mynnu trefnu gwrandawiadau ar fyr rybudd yn rhoi gofynion ychwanegol ar lysoedd sydd dan bwysau mawr. Yn ogystal, mae gwrandawiadau byr rybudd (neu yn wir, gwrandawiadau ar yr un diwrnod) yn codi cwestiynau ynglŷn â thegwch gweithdrefnol, gan nad oes fawr o amser i rieni gyfarwyddo cyfreithiwr. I'r un graddau, nid oes digon o amser i warcheidwad y plant wneud ei ymholiadau ei hun a chynghori'r llys (ar gyfer achos diweddar gweler: Re G (Children: fair hearing) [2019] EWCA Civ 126).⁶ Mewn achosion lle mae'r gwarcheidwad wedi bod ymwneud yn flaenorol â phlentyn hŷn, gall parhad cysylltiad proffesiynol liniaru rhai o anawsterau gwrandawiadau byr rybudd. Fodd bynnag, fel y dangoswyd mewn adroddiad cynharach o'r gyfres *Mewn Gofal o'u Geni* ar gyfer Cymru, mae bron i hanner yr achosion babanod newydd-anedig yn cynnwys rhieni nad yw'r llys wedi'u gweld o'r blaen (Alrouh et al. 2019). Lle mae gwrandawiadau byr rybudd yn ymwneud â babanod newydd-anedig, ceir cwestiynau penodol iawn hefyd ynglŷn â gallu mamau biolegol i ymgysylltu'n ystyrlon ag achos llys yn y cyfnod uniongyrchol ar ôl geni.⁷ Am yr holl resymau hyn, galwodd adroddiad terfynol y PLWG am waith ymchwil pellach gyda'r ffocws hwn.

Mae'r adroddiad hwn felly'n amcanu i ddarparu data wedi'i ddiweddararu a dadansoddiad ar:

- nifer a chyfradd mynychder babanod newydd-anedig a phlant bach mewn achosion gofal ar lefel genedlaethol a rhanbarthol
- cyfran y gwrandawiadau gorchymyn gofal interim brys (ICO) yn ymwneud â babanod newydd-anedig a gynhelir ar fyr rybudd (diffinnir yn yr adroddiad fel o fewn saith niwrnod), fel gwrandawiadau brys (llai na thridiau), a heb yr un diwrnod o rybudd (cynhelir ar yr un diwrnod)
- nifer y gorchymynion amddiffyn brys (EPO) a wnaed ar gyfer babanod newydd-anedig a phlant bach, a chyfran yr achosion hyn sy'n mynd ymlaen i achosion a.31.

Defnyddio data Cafcass a Cafcass Cymru wedi'i gysoni o fewn Banc Data SAIL

Hwn yw'r adroddiad cyntaf i ddefnyddio data Cafcass Cymru a Cafcass Lloegr wedi'i gysoni a guradwyd gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol (FJDP) o fewn amgylchedd diogel y Banc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) ym Mhrifysgol Abertawe.⁸ Cafodd data gweinyddol a gasglwyd ac a gynhaliwyd gan Cafcass (Lloegr) a Cafcass Cymru ei gaffael gan y Banc Data (Ford et al. 2009; Jones et al. 2017; Lyons et al. 2009) i gefnogi gwaith y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol ac Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. Trwy gysoni'r data llys teulu

⁶ Gellir gweld dadansoddiad llawn gwybodaeth am yr achos hwn yn:

<https://www.parklaneplowden.co.uk/news/the-importance-of-interim-removal-hearings-family-case-note>

⁷ Rhoddir pwys pellach ar bryderon ynghylch gallu rhieni i gyfranogi mewn achosion gofal gan dystiolaeth newydd o raddfa iechyd meddwl mamau (Griffiths et al. 2020a; 2020b; 2021).

⁸ Wrth ddefnyddio'r term 'curadu', cyfeiriwn at y broses o drosi data crai yn ddata defnyddiadwy ar gyfer dadansoddi eilaidd. Mae Dr Bachar Alrouh wedi arwain y gwaith curadu ar gyfer yr adroddiad hwn, a Dr Rebecca Pattinson yw'r dadansoddwr arweiniol. Drafftwyd yr adroddiad gan yr Athro Karen Broadhurst.

hwn, rydym wedi gallu archwilio gwahaniaethau a nodweddion cyffredin mewn ymarfer o fewn y ddwy genedl a rhyngddynt. Er bod polisi a deddfwriaeth gofal cymdeithasol wedi amrywio yng Nghymru, o ran deddfwriaeth cyfiawnder teuluol, mae Cymru a Lloegr yn parhau (i raddau helaeth) i rannu'r un fframweithiau cyfreithiol a statudol.⁹ Cyfanswm y sampl plant bach a gynhwyswyd yn yr astudiaeth yw 47,955, yn ymwneud â cheisiadau a.31 a gyflwynwyd rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2020 yng Nghymru a Lloegr. O ran ceisiadau am Orchmynion Amddiffyn Brys a.44 rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2020, roedd y sampl yn cynnwys tua 3,652 o blant bach (Lloegr yn unig).

Safonau tystiolaeth: Y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol

Mae holl adroddiadau'r Bartneriaeth yn seiliedig ar boblogaethau gwasanaethau llawn neu garfannau cenedlaethol gynrychioliadol o blant bach, gan ddefnyddio data a gynhyrchwyd fel mater o drefn gan y Gwasanaeth Cyngori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd (Cafcass) yng Nghymru a Lloegr. Mae'r un peth yn gymwys i astudiaethau sy'n cysylltu data Cafcass neu Cafcass Cymru â ffynonellau data eraill. Yn unol â'r safonau tystiolaeth y cydymffurfiwyd â nhw gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol, mae'r adroddiad hwn yn disgrifio'n fras, ar gyfer llunwyr polisi ac ymarferwyr, yr holl fesurau, penderfyniadau dadansodol a materion ansawdd data.¹⁰ Mae cyhoeddiadau academiaidd pellach yn ehangu ar fethodoleg. Mae pob un o'r prif adroddiadau ymchwil a gwblhawyd gan y Bartneriaeth yn destun cymeradwyaeth foesegol annibynnol, prosesau llywodraethu SAIL, ac adolygiad gan gymheiriaid.¹¹

COVID-19

Oherwydd COVID-19, arweiniodd mis Mawrth 2020 at gyfnod o ymarfer annodweddiadol mewn awdurdodau lleol a llysoedd teulu, law yn llaw â straen teuluol annodweddiadol iawn. Er nad oes unrhyw amheuaeth fod y pandemig wedi gwaethygu pwysau ar y system ac ar deuluoedd cyn y pandemig, mae symud at ymarfer o bell neu gan gadw pellter cymdeithasol ynghyd â chau ysgolion yn golygu bod rhaid trin 2020 fel blwyddyn anghyffredin. Er enghraifft, cyflwynwyd dulliau newydd o flaenoriaethu achosion, ac ymestynnwyd achosion gofal yn ystod 2020. Yn yr adroddiad hwn, rydym felly wedi cyfyngu ein dadansoddiad i geisiadau a wnaed cyn mis Mawrth 2020. Gan symud ymlaen, byddwn yn dadansoddi'n fanwl sut yr oedd y flwyddyn gyllidol 1 Ebrill 2020 hyd at 31 Mawrth 2021 yn gwahaniaethu oddi wrth flynyddoedd blaenorol.

⁹ Mae Deddf Plant 1989 a Chyfarwyddyd Ymarfer 12 yn parhau i awdurdodi ymarfer cyfiawnder teuluol yng Nghymru. Fodd bynnag, mae gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 yn golygu bod darpariaeth gofal cymdeithasol, fel rhoi gofal i blentyn o dan a.76 y ddeddf hon, bellach yn cael ei hawdurdodi gan ddeddfwriaeth sy'n benodol i Gymru.

¹⁰ Y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol: Safonau Tystiolaeth: <https://popdatasci.swan.ac.uk/centres-of-excellence/family-justice-data-partnership/>

¹¹ Mae'r holl waith ymchwil a wneir ym Manc Data SAIL yn destun craffu gan y Panel Llywodraethu Ymchwil Annibynnol (IGRP) fel mesur diogelu hanfodol yn y broses moeseg a llywodraethu ymchwil.

2.Cefndir

Achosion gofal a gwrandawiadau byr rybudd

O dan Gyfarwyddyd Ymarfer 12A, pan fydd awdurdod lleol yn cychwyn achos gofal, mae'n rhaid i'r llys gael ei hysbysu hefyd o'r angen am wrandawriad ICO brys sy'n cael ei herio neu wrandawriad rheoli achos (CMH) rhagarweiniol.¹² Mae'r ddau gais gan yr awdurdod lleol am benderfyniadau cyflymach ar ran y llys. Yn ôl ymarferwyr, mae'r mwyafrif o wrandawiadau brys, o bell ffordd, am Orchmynion Gofal Interim (ICO). Mae'r awdurdod lleol yn gwneud cais am ICO brys lle mae pryderon diogelu mor fawr bod y lefel hon o ymyrraeth mewn bywyd teulu wedi'i gwarantu. Gall yr awdurdod lleol ofyn am wahanu'r plentyn oddi wrth ei rieni dros dro hefyd.

Fel arfer, bydd yr awdurdod lleol yn gofyn i dîm dyrannu'r llys i restru'r gwrandawriad ICO i ganiatáu rhybudd o dridiau i rieni. Gall yr awdurdod lleol wneud cais i gwtogi rhybudd ar gyfer gwrandawriad ICO, ond nid yw'r cyfryw geisiadau'n cael eu caniatáu'n arferol gan y gall rhybudd annigonol amharu'n ddifrifol ar hawl y rhieni i wrandawriad teg (hawliau Erthygl 6, Deddf Hawliau Dynol 1998).¹³ Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi defnyddio'r categorïddiadau canlynol gan Cafcass (Lloegr) i wahaniaethu rhwng gwrandawiadau brys yn ôl nifer y diwrnodau rhwng cychwyn achos a'r cais:

- byr rybudd – cynhelir y gwrandawriad cyntaf lai na saith niwrnod o ddyddiad cyflwyno'r cais gofal
- brys – cynhelir y gwrandawriad cyntaf lai na thridiau o ddyddiad cyflwyno'r cais gofal [Sylwer bod yr ymchwil hon yn mesur un neu ddau ddiwrnod.]
- ar yr un diwrnod – cynhelir y gwrandawriad cyntaf ar yr un diwrnod â chyflwyno'r cais gofal.

Gall awdurdodau lleol ofyn am wrandawriad rheoli achos (CMH) rhagarweiniol hefyd. Bydd hwn yn cael ei gynnal cyn yr amserlen safonol 12–18 diwrnod ar ôl y cais a.31 cychwynnol. Yn ôl ymarferwyr, ychydig o wrandawiadau CMH rhagarweiniol a gynhelir. Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 12A yn datgan y bydd CMH rhagarweiniol ond yn angenrheidiol 'i ystyried materion fel awdurdodaeth, pwy yw'r rhieni, statws parti, gallu i ymglyfreitha, datgelu a ph'una a oes, neu ph'un a ddylai fod, cais i Awdurdod Canolog neu awdurdod cymwys arall mewn gwladwriaeth dramor neu awdurdod consylaidd yng Nghymru a Lloegr mewn achos rhyngwladol'.

Gwrandawiadau byr rybudd a phlant bach: ystyriaethau penodol

Mae pryderon ynglŷn â niferoedd cynyddol o geisiadau gan awdurdodau lleol am wrandawriad ICO brys yn cael lle canolog yn adroddiadau interim a therfynol PLWG (2019; 2021). Darparwyd tystiolaeth gan Cafcass i'r PLWG ar gyfer blwyddyn galendr 2018, a ddangosodd gynnydd ar y flwyddyn flaenorol yn y defnydd o wrandawiadau byr rybudd ar gyfer plant i gyd. Mewn adroddiad cynharach yn y gyfres *Mewn Gofal o'u Geni* (Alrouh et al. 2019) nodom fod cyfran uwch o lawer o achosion plant bach yn cynnwys gwrandawiadau byr rybudd nag ar gyfer plant

¹² Mae Cyfarwyddyd Ymarfer 12A yn rhoi arweiniad ar reoli achosion mewn achosion gofal a goruchwyliaeth: https://www.justice.gov.uk/courts/procedure-rules/family/practice_directions/pd_part_12a.

¹³ Caiff gwrandawiadau gwahanu ICO eu hegluro yn y blog canlynol gan Rehana Begum (Siambrau St John Street, Manceinion): <https://www.18sjs.com/covid-19-ico-removal-hearings>. Er eu bod yn canolbwyntio ar wrandawiadau o bell, mae'r pwyntiau a weir yn ddefnyddiol iawn wrth ystyried hanfodion treial teg a hawliau Erthygl 6, sy'n cynnwys yr hawl i gael yr holl wybodaeth berthnasol ac i gael cynrychiolaeth gyfreithiol.

hŷn (tud.31). Gan gyfeirio at wahanu baban adeg ei eni fel cam 'hynod o ddirugaredd', mae adroddiad interim PLWG yn dweud yn glir, yn y cyfryw achosion, 'dylai'r safonau uchaf o ran tystiolaeth, cynllunio a chefnogi fod yn gymwys' (para. 97, tud.56, 2019).

Fodd bynnag, mae pryderon cyffredinol y gall gwneud penderfyniadau brys amharu ar dystiolaeth, cynllunio, a chefnogi, yn ogystal â hawliau cyfreithiol ac iawnderau y rhieni a'r plentyn. Ymhlith cyfreithwyr a barnwyr yn arbennig, y pryderon yw nad yw llawer o achosion sy'n cael eu cyflwyno fel rhai 'brys' yn rhai brys mewn gwirionedd. Yn hytrach, mae brys yn deillio o ddiffyg asesu a chynllunio priodol cyn-geni ar ran yr awdurdod lleol. Mae pryderon ynghylch amrywio mawr mewn arweiniad awdurdodau lleol ynglŷn ag asesu cyn-geni yn bryderon hirsefydlog (Lushey et al. 2018). Yn absenoldeb gwaith effeithiol cyn-geni, y penderfyniad diodyn yw cychwyn achos gofal adeg y geni am fod ysbytai yn mynnu rhyddhau, ac nid yw gofawyr sy'n berthnasau nac atebion ataliol eraill wedi'u trefnu.

Amherir ar rôl allweddol gwarcheidwad y plant hefyd mewn achosion byr rybudd neu achosion ar yr un diwrnod, ac mae hyn yn effeithio ar benderfyniadau hefyd. Lle mae gwarcheidwad y plant yn penderfynu achos 'ar y papurau' (h.y. heb weld y plentyn na'r teulu oherwydd diffyg amser), y dystiolaeth anecdotaidd yw bod y gwarcheidwad yn teimlo'n llai abl i herio cynllun yr awdurdod lleol ar gyfer gwahanu dros dro.¹⁴ Mae Cafcass a Cafcass Cymru wedi rhannu gyda'r tîm ymchwil bod y cyfryw achosion yn digwydd yn gymharol fyny. Gan ymarferwyr rheng flaen, clywsom dystiolaeth anecdotaidd fod gwneud penderfyniadau ar fyrder wedi arwain at benderfyniadau diffygiol i wahanu plant bach y gellid fod wedi'u lleoli'n uniongyrchol o fewn y rhwydwaith teulu estynedig. Mae pryderon anecdotaidd o'r fath yn atseinio'r dirnadaethau a gafwyd o weithdai gyda gweithwyr proffesiynol ar ôl cyhoeddi'r adroddiad gwreiddiol *Mewn Gofal o'u Geni* ar gyfer Lloegr (2018), sy'n amlygu ymarfer ac adnoddau amrywiol iawn cyn-geni (Mason a Broadhurst 2020). Yn achos babanod newydd-anedig, mae'r posibilrwydd o amharu ar hawliau rhieni i dreial teg (Erthygl 6, Deddf Hawliau Dynol 1998) yn arbennig o ddifrifol. Yn y cyfnod uniongyrchol ar ôl geni, nid yw mamau mewn unrhyw sefyllfa i ddod o hyd i gyfreithiwr na chyfarwyddo cyfreithiwr. Eto, mae adroddiad interim y PLWG yn nodi'n glir bwysigrwydd llwyr sicrhau y cydymffurfir â gofynion yr Amlinelliaid Cyfraith Gyhoeddus (PLO) cyn-geni, a bod yr holl opsiynau ar gyfer cymorth yn cael eu harchwilio'n llawn.

Lle mae'n amlwg bod risg wirioneddol fod achos gofal yn angenrheidiol ar yr adeg geni, mae'n hanfodol fod ASP [cyfnod asesu a chefnogi] y PLO yn dechrau cyn gynted ag y bo modd. Bydd yn hollbwysig adnabod cymorth teuluol i rieni. Yn gyffredinol, dylai awdurdodau lleol gadw mewn cof yr ystyriaethau arbennig yn ymwneud ag iechyd y fam a pha mor gyflym y gellir ystyried ei bod yn briodol ar ôl geni i'w disgwyl hi i wneud penderfyniadau cadarn ynglŷn â'i phlentyn (para. 99, tud. 56, 2019).

Am yr holl resymau hyn, mae'n bwysig canfod cyfran yr achosion plant bach sy'n cynnwys gwrandawiaid byr rybudd, nodi tueddiadau dros gyfnod ac unrhyw wahaniaethau mewn ymarfer ar lefelau lleol a chenedlaethol (Cymru a Lloegr).

¹⁴ Mae ymarferwyr Cafcass wedi rhannu'u pryderon yn gyfrinachol fel rhan o'r cyngor a ddarparwyd i'r tîm ymchwil wrth gynhyrchu'r adroddiad. Mae'r broses casglu data systematig yn mynd rhagddi fodd bynnag fel rhan o astudiaeth gysylltiedig, sy'n datblygu canllawiau cynhwysol i lywio ymarfer diogelu trugarog ac effeithiol adeg geni. Mae manylion yr astudiaeth ar gael yn: <https://www.lancaster.ac.uk/sociology/news/born-into-care-towards-inclusive-guidelines-when-the-state-intervenes-at-birth>

Gorchmynion amddiffyn brys

Cododd PLWG gwestiynau hefyd ynglŷn â'r defnydd o orchmynion amddiffyn brys (EPO), gan gyfeirio at bryderon na fyddai'r holl blant sy'n destun EPO yn ymddangos ar ôl hynny mewn achosion gofal. Lle mae angen gweithredu ar frys, gall yr awdurdod lleol wneud cais am EPO o dan a.44 Deddf Plant 1989. Mae EPO yn para am wyth niwrnod ond gellir ei ymestyn am saith niwrnod arall. Dros gyfnod y gorchmyn, mae'r awdurdod lleol yn caffael cyfrifoldeb rhiant, er y rhennir hyn gyda rhieni. Dylid rhoi rhybudd o un diwrnod i rieni am wrandawriad y cais EPO, er y gall awdurdodau lleol ofyn i'r llys gytuno i wrando'r achos heb rybudd. Fodd bynnag, mae'r defnydd o EPOs yn isel yn Lloegr, ac yn isel eithriadol yng Nghymru. Yn 2015, disgrifiodd Syr James Munby y defnydd o EPOs fel 'mesur llym eithriadol' (X Council v B (Emergency Protection Orders) [2004] a phwysleisiodd yr angenrheidrwydd i sicrhau bod rhieni'n cael rhybudd pan fydd cais am EPO yn cael ei wneud, ac eithrio ar gyfer achosion 'cwbl eithriadol'. Am drafodaeth lawnach o'r gyfraith achosion, gweler Ryan a Cook (2019).

Mae adroddiad terfynol y PLWG (para. 90, 2021) yn disgrifio'r ddadl barhaus ymysg cydweithwyr barnwrol a phroffesiynol ynglŷn â'r defnydd priodol o EPOs o gymharu â gorchmyn gwahanu interim ar fyr rybudd o dan ICO mewn sefyllfaoedd argyfwng neu frys (para. 90. tud.41, 2021). Ar hyn o bryd, mae'r ddadl hon yn parhau yn wyneb tystiolaeth empirig gyfyngedig. Nid oes fawr o waith archwilio empirig wedi'i wneud o'r defnydd o'r gorchmynion hyn ers gwaith Judith Masson rhyw 15 mlynedd yn ôl (Masson 2006; Masson et al. 2007). Mae paragraff 91 (tud.41, 2021) o adroddiad terfynol PLWG yn cyfeirio at dystiolaeth anecdotaidd 'bod achosion lle mae EPOs yn cael eu gwneud ond nad yw achosion gofal yn dilyn'. Felly, yn yr adroddiad hwn, rydym wedi cynnwys dadansoddiad o EPOs yn Lloegr i bennu'u defnydd ers 2012 ar gyfer babanod a phlant, ac i fynd i'r afael yn uniongyrchol â'r cwestiwn o b'un a yw cais am achos gofal yn dilyn cais am EPO.

Rhoi mewn gofal yn wirfoddol

Mae rhoi plant bach mewn gofal yn wirfoddol fel gwasanaeth cymorth teuluoedd yn opsiwn pwysig yng Nghymru a Lloegr. Yrr adran berthnasol o Ddeddf Plant 1989 yw a.20 (Lloegr) ac i Gymru, a.76 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Mae'n rhaid i ddirprwyo cyfrifoldeb rhiant yn y modd hwn fod yn wirioneddol wirfoddol, fodd bynnag, ac mae'n rhaid i rieni gael eu hysbysu'n llawn am eu hawliau. Eto, mae awdurdodau lleol yn fwy amharod i geisio cytundebau gwirfoddol gan rieni, oherwydd cyfres o ddyfarniadau proffil uchel sydd wedi bod yn ddamniol o (gam)ddefnydd awdurdodau lleol o'r opsiwn hwn o fewn Deddf Plant 1989. Mae'r dyfarniadau ym mater N (Children) (Adoption: Jurisdiction) [2015] EWCA Civ 1112 a [2016] 2 WLR 713 yn cael eu gweld yn gyson fel rhai sy'n cyfrannu at leihad yn y defnydd o roi mewn gofal yn wirfoddol ledled Cymru a Lloegr. Mae beirniadaethau cyffredinol o'r defnydd o a.20/a.76 yn cynnwys gorfodaeth ganfyddedig ar ran yr awdurdod lleol, methiant i hysbysu rhieni'n llawn am eu hawliau, a phlant yn dihoeni mewn gofal gwirfoddol.

Mae'r defnydd a'r camddefnydd o roi mewn gofal yn wirfoddol yn achos plant bach yn parhau'n destun cryn drafod yn ymarferol. Mae adroddiad terfynol PLWG yn cyfeirio'n uniongyrchol at amharodrwydd parhaus a dryswch ynglŷn â'r defnydd o a.20/s.76 (para.44, tud.28–29) ar ran yr awdurdodau lleol. Cadarnheir hyn gan ystadegau diweddar gan yr Adran Addysg a Llywodraeth Cymru, sy'n adrodd am ostyngiad ers 2014/15 yn y gyfran o blant sy'n derbyn gofal o dan y trefniadau hyn (DfE 2020; StatsCymru 2021). Yn 2018, fe wnaeth y Prif Weithiwr Cymdeithasol, gan wneud sylwadau ar y defnydd llai o a.20 yn Lloegr, ddadlau 'mae'r llys yn cael ei weld yn

fynych fel yr *unig* gartref naturiol ar gyfer trafodaethau rhwng teuluoedd a'r wladwriaeth, gyda theuluoedd wedi'u cynrychioli'n gyfreithiol a chan weithio'n ddiflino' (Trowler et al. tud.13, 2018). Ar yr un pryd, fodd bynnag, cydnabuwyd bod penderfyniadau sefydlogrwydd ar gyfer plant, yn enwedig lle nad yw aelodau'r teulu yn gallu darparu gofal hirdymor, yn mynnu goruchwyliaeth y llys. Mae dyfarniad y Goruchaf Lys yn Williams v LB Borough of Hackney [2018] yn gyfarwyddol. Cadarnhaodd y dyfarniad ei bod yn dderbyniol i ddefnyddio trefniadau a.20/a.76 ar yr amod bod y rhieni, a'r plentyn os yw'n ddigon hen, yn deall yn iawn beth yw'r goblygiadau, ac y gellir gwneud cais am i'r plentyn ddychwelyd adref unrhyw bryd. Roedd y dyfarniad yn cadarnhau hefyd nad oes unrhyw derfynau amser o ran pa mor hir y gall cytundeb o dan a.20/a.76 fod ar waith ar yr amod bod yr awdurdod lleol yn cydymffurfio â'i holl ddyletswyddau ar gyfer plentyn sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, mae'r PLWG yn ochelgar ynghylch y defnydd o a.20/a.76 lle mae awdurdodau lleol yn bwriadu gwahanu plentyn bach o ofal ei rieni (PLWG 2021).

Mae'r PLWG yn cyfeirio at yr angen am adolygiad o'r gyfundrefn cymorth cyfreithiol bresennol mewn perthynas â chyn-achosion. Lle gall rhieni gael cyngor cyfreithiol annibynnol, cadarn, gallai hyn leddfu pryderon ynglŷn â gorfodaeth a gallu rhieni i roi cydsyniad gwybodus. Fodd bynnag, ceir pryderon bod toriadau i gyllid a gyflwynwyd gyda Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr (LASPO) yn 2012, law yn llaw â sioc bellach y pandemig presennol, wedi lleihau ymhellach y gronfa o gwmnïau cyfraith teulu yng Nghymru a Lloegr.¹⁵ Mae angen ystyried argymhellion y PLWG yng nghyd-destun darpariaeth cyfraith teulu anghyson a diffygiol yng Nghymru a Lloegr. Yn yr adroddiad hwn, ni fu modd archwilio'r defnydd o a.20/a.76, na llwybrau sefydlogrwydd ymhellach na hynny a ddywedwyd uchod, oherwydd rhwystrau mawr o ran cysylltu cofnodion gofal cymdeithasol plant a llysoedd teulu. O ran opsiynau i blant bach adeg y geni, mae hyn yn gadael rhan bwysig o'r jigso yn eisiau.

Mae'r FJDP a Banc Data SAIL yn gweithio gydag adrannau'r llywodraeth i archwilio sut gellid cyflawni cysyllteddau yn y dyfodol a gwella setiau data o ran eu cwmplas.¹⁶

¹⁵ Hyd yma, ni fu unrhyw ddadansoddiad systematig o effaith y pandemig ar hyfywedd ariannol cwmnïau cyfraith teulu; fodd bynnag, mae pryderon wedi'u mynegi'n gyhoeddus gan Gymdeithas y Cyfreithwyr. I weld trafodaeth ragorol am effaith LASPO cyn y pandemig, gweler rhifyn arbennig 2017 o'r *Journal of Social Welfare and Family Law* sydd wedi'i neilltuo i'r testun hwn: Mant, J., a Wallbank, J. (2017). The post-LASPO landscape: challenges for family law, *Journal of Social Welfare and Family Law*, 39:2, 149–151. DOI: 10.1080/09649069.2017.1306340.

¹⁶ Gellir gweld manylion pellach am waith y bartneriaeth yn: <https://popdatasci.swan.ac.uk/centres-of-excellence/family-justice-data-partnership/>

3. Methodoleg

Ffynhonnell data

Y brif ffynhonnell data oedd data rheoli achosion electronig a gynhyrchir gan Cafcass [Lloegr] a Cafcass Cymru fel mater o drefn. Cynhwyswyd pob achos gofal a.31 a ddechreuodd rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2020 (blynyddoedd cyllidol) yn yr astudiaeth, a hefyd yr holl geisiadau a.44 am EPOs a gyflwynwyd dros yr un cyfnod (Lloegr).¹⁷ Roedd gwybodaeth achos berthnasol ar gyfer yr astudiaeth hon yn cynnwys: wythnos geni'r plentyn, dyddiad cyflwyno'r cais, a dyddiad y gorchymyn terfynol ar gyfer yr holl achosion a.31 (gofal a goruchwyliaeth), dyddiad y gwrandawriad cyntaf (yn dilyn dyddiad cyflwyno'r cais a.31) a'r awdurdod lleol. Mae proffiliau adnoddau data ar gyfer Cymru a Lloegr ar gael gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol (gweler Bedston et al. 2020 a Johnson et al. 2020).

Samplau dadansoddol ac amserlen

Creom ddwy set ddata benodol i fynd i'r afael ac amcanion yr astudiaeth. Roedd y setiau data'n cynnwys cofnodion plant unigol â'u henwau wedi'u dileu. Y sail resymegol gyffredinol ar gyfer samplu oedd cadw cynifer o gofnodion defnyddiadow â phosibl, ar gyfer pob dadansoddiad penodol.

Sampl 1: Roedd yn cynnwys yr holl achosion o achosion gofal plant bach a babanod newydd-anedig a gychwynnwyd rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2020 (47,955 o blant bach, yn cynnwys 21,774 o fabanod newydd-anedig). Rhoddodd hyn gyfnod arsylwi ôl-syllol wyth mlynedd (blynyddoedd cyllidol). Defnyddiwyd y sampl hon i feintioli niferoedd, cyfrannau a chyfraddau mynychder ar gyfer babanod newydd-anedig mewn achosion gofal, dros gyfnod ac yn ôl rhanbarth. Defnyddiwyd y sampl hon hefyd i nodi'r cyfrannau o achosion babanod newydd-anedig gan gofnodi ystod y gwrandawriadau byr rybudd dros gyfnod ac yn ôl rhanbarth. Er mwyn galluogi gwaith ar lwybrau dilynol, fe wnaethom ddileu data cyn 2012, gan fod data'r drefn gyfreithiol (gwrandawriadau) yn llai dibynadwy cyn y dyddiad hwn.

Sampl 2: Roedd yn cynnwys yr holl blant, yn blant bach a babanod newydd-anedig yn Lloegr a oedd yn destun ceisiadau am EPOs rhwng 1 Ebrill 2012 a 31 Mawrth 2020 (blynyddoedd cyllidol). Roedd y sampl hon yn cynnwys 13,119 o blant, 3,652 ohonynt yn blant bach a 1,731 ohonynt yn fabanod newydd-anedig. Defnyddiwyd y sampl hon i gofnodi niferoedd y ceisiadau am EPOs, ond hefyd i bennu'r gyfran o EPOs a aeth ymlaen at achosion a.31 o fewn cyfnod 28 diwrnod.

Diffiniadau a thrin data ymhellach

Oed plentyn: Cyfrifwyd oed plentyn ar ddechrau achos gofal gan ddefnyddio wythnos geni'r plentyn a'r dyddiad y cyflwynwyd y cais a.31.

¹⁷ O ran cyflawnrwydd data EPO yn Cafcass (Lloegr), fe'n cynghorwyd gan y sefydliad, am fod y plentyn yn barti yn awtomatig ym mhob cais EPO, y dylai'r data hwn gael ei gofnodi gan Cafcass fel mater o drefn. Fodd bynnag, gallai fod nifer fach iawn o geisiadau lle mai'r cyfreithiwr yn unig sy'n cynrychioli'r plentyn, ac nid yw'r achos hwn yn cael ei gofnodi ar y system. O ystyried y cyngor hwn, rydym wedi gwneud y penderfyniad bod y data'n ddigon cyflawn at ddibenion yr adroddiad hwn. Yng Nghymru, er bod Cafcass Cymru yn casglu data EPO fel mater o drefn, canfuom fod nifer y ceisiadau am EPOs mor fach fel na allwn ddefnyddio'r data hwn ar gyfer ymchwil.

- Diffiniwyd **plentyn bach** fel plentyn iau na 52 wythnos oed.
- Diffiniwyd **baban newydd-anedig** fel plentyn iau na **phythefnos oed** ar adeg cychwyn achos.¹⁸

Mae'n bwysig nodi, yn y prosiect hwn, ac o ystyried ymagwedd SAIL at anonymeiddio data a diogelu preifatrwydd data, bod y tîm wedi cael gwybod wythnos geni'r plentyn yn unig (h.y. dyddiad y dydd Llun o wythnos geni'r plentyn) yn lle union ddyddiad geni'r plentyn.¹⁹ Gallai hyn olygu bod oed amcangyfrifedig plentyn hyd at chwe diwrnod yn hŷn na'i wir oed. Am y rheswm hwn, penderfynwyd defnyddio 'iau na phythefnos' fel y terfyn ar gyfer y categori 'babanod newydd-anedig' yn ein set ddata a gysonwyd ar gyfer Cymru a Lloegr.

Gwrandawiadau cyntaf byr rybudd: Cofnodom holl ddyddiadau'r gwrandawiadau cynharaf a gynhaliwyd ar ôl cyflwyno cais gofal. Ni wnaethom wahaniaethu rhwng mathau o wrandawiadau. Defnyddiom ddull categoreiddio a ddatblygwyd gan Cafcass (Lloegr), gan ddosbarthu gwrandawiadau cyntaf fel rhai byr rybudd, brys neu ar yr un diwrnod (heb yr un diwrnod rhwng cyflwyno cais a gwrandawriad).

Ailstrwythurwyd data gennym i alluogi adnabod plant a oedd yn destun cais a.44 (EPO) ac yna cais a.31 (gofal). Chwiliom am y ddau fath hyn o geisiadau yn eu trefn o fewn yr un achos plentyn, neu caniatuom gyfnod dilynol o 28 diwrnod cyn y cais a.44 cychwynnol.

Rhanbarthau Lloegr: Ar gyfer yr adroddiad hwn, defnyddiom naw rhanbarth Lloegr fel y'u diffiniwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn cynnwys grwpiau o awdurdodau lleol (2019).²⁰ Y rheswm dros ddefnyddio'r rhanbarthau hyn yw eu bod yn mapio ar y data genedigaethau byw a gynhyrchwyd gan yr ONS, a ddefnyddiwyd gennym i gyfrifo cyfraddau mynychder. Fodd bynnag, byddai modd hefyd darparu data yn ôl cylchdaith llysoedd neu awdurdodau lleol unigol, yn amodol ar reolaethau datgelu safonol.

Data coll: Manylir ar y rhestr newidynnau a lefelau data coll ar gyfer yr astudiaeth mewn tablau data perthnasol yn yr adroddiad hwn.

Proses ddadansoddol

Cynhyrchwyd ystadegau disgrifiadol ar ffurf niferoedd, canrannau a chyfraddau mynychder crai ar gyfer babanod newydd-anedig mewn achosion gofal. Cyfrifom gyfartaledd symudol tair blynedd ar draws ein cyfnod arsylwi wyth mlynedd er mwyn cofnodi tueddiadau'n fwy cywir mewn niferoedd dros gyfnod, o ystyried bod rhai amrywiadau o fewn y data.²¹ I gyfrifo cyfraddau mynychder, defnyddiom ddata genedigaethau byw yr ONS fel yr enwadur.²² Hynny

¹⁸ Yn ein hadroddiadau cynharach ar gyfer Lloegr, cynhwysom blant bach yn y categori babanod newydd-anedig os oeddent yn iau nag wythnos oed. Ar gyfer yr adroddiad hwn, fodd bynnag, o ystyried bod y tîm ymchwil wedi gweithio gyda data Cafcass a Cafcass Cymru wedi'i gysoni, ynghyd â'r ymagwedd yn SAIL i beidio â nodi dyddiad geni, rydym wedi categoreiddio'r holl blant bach fel babanod newydd-anedig os oeddent yn iau na phythefnos oed.

¹⁹ Mae Trydydd Parti Dibynadwy (TTP) y GIG, sy'n rheoli hunaniaeth cofnodion unigolion ym Manc Data SAIL (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru (NWIS)), yn disodli'r eitemau y gellir eu hadnabod yn gyffredin (gan gynnwys enw, cod post a dyddiad geni) ar gyfer pob unigolyn â chod wedi'i amgryptio ac mae'n anfon hwn, ynghyd â gwybodaeth leiafswm (am rywedd, ardal breswyl ac wythnos geni) at SAIL.

²⁰ <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/livebirths>

²¹ Mae'r dull yn gweithio trwy gyfrifo cyfartaledd tair blynedd. Yn yr astudiaeth hon, mae'r dull yn cofnodi'r cyfartaledd 'canolig' ar gyfer is-set ddata tair blynedd benodedig. Mae'n ddull defnyddiol ar gyfer dadansoddi tueddiadau pan fydd y data'n dangos rhywfaint o amrywio yn y niferoedd blynyddol.

²² <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/birthsdeathsandmarriages/livebirths>

yw, gofynnem y cwestiwn: ar gyfer pob 10,000 o enedigaethau byw, beth oedd nifer y babanod newydd-anedig wnaeth ymddangos mewn achosion gofal?

I wirio am arwyddocâd ystadegol, o ran newidiadau yng nghyfrannau a chyfraddau achosion babanod newydd-anedig dros gyfnod, cymhwysom ddulliau atchweliad llinol syml ac atchweliad Poisson, yn y drefn honno (Madsen a Thyregod 2010). Rhagdybiwyd bod data ar goll yn gwbl ar hap, ac felly nid yw wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad ystadegol.

Yn y dadansoddiadau rhanbarthol, roedd nifer ddibwys o gofnodion lle'r oedd Cafcass Cymru neu Cafcass Lloegr naill ai heb gofnodi awdurdod lleol, neu wedi cofnodi awdurdod lleol y tu allan i'w ffiniau cenedlaethol priodol. Lle canfyddom y gwallau hyn, hepgorwyd y cofnodion.

Cynhaliwyd yr holl ddadansoddiadau ystadegol yn y feddalwedd ystadegol R (Grolemund a Wickham 2011; R Core Team 2015; Wickham et al. 2019).

Cyfyngiadau'r astudiaeth

Mae'r astudiaethau sy'n seiliedig ar ddata gweinyddol wedi'u cyfyngu, o anghenraid, gan gwmpas ac ansawdd y data sydd ar gael, a gesglir yn bennaf at ddibenion sefydliadol yn hytrach nag ymchwil. Darparwyd y data ar gyfer yr astudiaeth hon gan Cafcass [Lloegr] a Cafcass Cymru ac mae wedi'i gyfyngu i achosion gofal o dan a.31 Deddf Plant 1989. Mae'r ddau sefydliad yn cofnodi pob achos gofal a.31 ond nid yw'n cofnodi plant sy'n cael eu rhoi mewn gofal yn wirfoddol o dan a.20 Deddf Plant 1989 neu a.76 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gan nid yw Cafcass/Cafcass Cymru yn ymwneud â'r achosion hyn.^{23,24} Yn ogystal, nid ydym wedi gallu cael mynediad i ddata amddiffyn yr heddlu, er y gall yr heddlu gymryd camau brys gan ddefnyddio'u pwerau o dan a.46 Deddf Plant 1989. I fynd i'r afael â'r cyfryw gyfyngiadau, mae'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol (FJDP) yn darparu adborth rheolaidd i ddarparwyr data ar gwmpas ac ansawdd y data ac yn gwneud awgrymiadau ynglŷn â newidiadau posibl i gasglu data.²⁵

²³ Gall babanod a phlant gael eu derbyn i ofal cyhoeddus yn wirfoddol neu drwy orchymyn llys. Bydd ffocws llym ar geisiadau a.31 yn tanamcangyfrif cyfanswm nifer y babanod newydd-anedig sy'n cael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni o fewn pythefnos o'u geni, oherwydd bydd cyfran o blant bach yng Nghymru a Lloegr yn cael eu derbyn i ofal ar sail wirfoddol (a.76 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014; a.20 Deddf Plant 1989).

²⁴ Yng Nghymru, er bod achosion gofal yn cael eu llywodraethu gan Ddeddf Plant 1989 o hyd, oherwydd bod y cyfrifoldebau cyffredinol am les plant wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru, mae rhoi plant mewn gofal yn wirfoddol yn dod o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a.76. Cyn i'r Ddeddf hon gael ei phasio, byddai plant yng Nghymru wedi cael eu rhoi mewn gofal o dan Ran 3, a.20 Deddf Plant 1989.

²⁵ Cwblhawyd adolygiad o setiau data lefel poblogaeth sy'n berthnasol i ymchwil cyfiawnder teuluol yn rhan o'r astudiaeth gwmpasu ar gyfer Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield: Jay, M.A., Woodman, J., Broadhurst, K., a Gilbert, R. (2017). *Who cares for children: population data for family justice research*. Ar gael o: <http://www.nuffieldfoundation.org/towards-family-justice-observatory>

4. Canfyddiadau

Niferoedd, cyfrannau, a chyfraddau mynychder babanod newydd-anedig mewn achosion gofal

Niferoedd

Yn yr wyth mlynedd 2012/13 i 2019/20, roedd 47,955 o blant bach yn destun achosion a.31 ledled Cymru a Lloegr. Cofnododd Lloegr 44,635 o'r plant bach hyn ar draws 43,511 o achosion, ac o'r rheiny roedd 20,306 yn fabanod newydd-anedig o dan bythefnos oed. Cofnododd Cymru 3,320 o'r plant bach ar draws 3,204 o achosion, ac o'r rheiny roedd 1,468 yn fabanod newydd-anedig.

Mae Tabl 1 yn cyflwyno'r amllder a'r canrannau ar gyfer plant bach yn y categorïau oed canlynol: o dan 2 wythnos, 2 i 3 wythnos, 4 i 12 wythnos, 13 i 25 wythnos, 26 i 38 wythnos, a 39 i 52 wythnos. Mae'n ymddangos bod yr amllder yn cynyddu, er gwaethaf amrywiadau o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r cyfartaleddau tair blynedd a gyfrifwyd, fodd bynnag, yn lliniaru'r amrywio hwn i ddatgelu:

- twf cyson yn nifer gyfartalog y babanod newydd-anedig mewn achosion gofal yng Nghymru a Lloegr ers 2012/13
- twf mwy cyffredinol yn nifer yr holl blant bach o dan 52 wythnos oed mewn achosion gofal bob blwyddyn ar gyfer Cymru a Lloegr ers 2015/16
- nifer gyfartalog y plant bach mewn achosion gofal yn Lloegr o 2013/14 i 2015/16 oedd 5,305 y flwyddyn, o gymharu â 5,899 y flwyddyn ar draws 2017/18 i 2019/20. Yn yr un modd, ar gyfer Cymru, nifer gyfartalog y plant bach mewn achosion gofal y flwyddyn o 2013/14 i 2015/16 oedd 366 o gymharu â 455 ar draws 2017/18 i 2019/20.

Tabl 1: Niferoedd a chyfrannau o blant bach mewn achosion gofal a.31, yn ôl oedran a blwyddyn


Gwlad	Blwyddyn gyllidol	<2 wythnos		2–3 wythnos		4–12 wythnos		13– 25 wythnos		26–38 wythnos		39– 52 wythnos		Ar goll
		n	%	n	%	n	%	n	%	n	%	n	%	
Lloegr	2012/13	2,425	44	521	9.4	831	15.1	768	13.9	533	9.7	439	8	95
	2013/14	2,208	43.3	528	10.4	696	13.6	718	14.1	476	9.3	474	9.3	54
	2014/15	1,984	39	467	9.2	795	15.6	759	14.9	543	10.7	541	10.6	59
	2015/16	2,187	40.8	522	9.7	824	15.4	763	14.2	566	10.6	501	9.3	65
	2016/17	2,733	46.8	493	8.4	765	13.1	790	13.5	556	9.5	500	8.6	65
	2017/18	2,960	50	481	8.1	801	13.5	716	12.1	520	8.8	447	7.5	72
	2018/19	2,909	49.7	500	8.5	758	13	684	11.7	501	8.6	498	8.5	72
	2019/20	2,914	50.9	431	7.5	716	12.5	714	12.5	494	8.6	461	8	49
Cymru	2012/13	145	38.1	49	12.9	58	15.2	61	16	33	8.7	35	9.2	7
	2013/14	136	39.9	33	9.7	52	15.2	47	13.8	43	12.6	30	8.8	<5
	2014/15	153	41.7	27	7.4	59	16.1	63	17.2	30	8.2	35	9.5	<5
	2015/16	157	40.1	40	10.2	59	15.1	61	15.6	36	9.2	39	9.9	<5
	2016/17	215	45.6	51	10.8	57	12.1	74	15.7	45	9.5	30	6.4	0
	2017/18	221	46.4	47	9.9	59	12.4	57	12	48	10.1	44	9.2	5
	2018/19	241	50.1	44	9.1	69	14.3	50	10.4	45	9.4	32	6.7	<5
	2019/20	203	50.8	37	9.2	54	13.5	45	11.2	29	7.2	32	8	0

Cyfrannau

Cafodd y gyfran o blant bach a oedd yn destun achosion gofal pan oeddent yn newydd-anedig ei chyfrifo hefyd. Trwy archwilio cyfrannau, gallwn ddeall yn well p'un a yw awdurdodau lleol yn cychwyn achosion gofal yn gynharach neu'n hwyrach ym mywyd plentyn bach dros gyfnod. Yr hyn y gallwn ei weld o Dabl 1 uchod (colofn %) ac, o Ffigur 1, yw bod cyfran fwy o achosion plant bach yn cael eu cychwyn ar gyfer babanod newydd-anedig dros gyfnod.

Mae Ffigur 1 yn dangos y canlyniadau o gymhwyso dull atchweliad llinol syml i gofnodi'r duedd yn y gyfran o achosion plant bach a gychwynwyd ar gyfer babanod newydd-anedig o fewn y pythefnos cyntaf o fywyd. Mae'r ffigur hwn yn datgelu cynnydd ystadegol arwyddocaol bob blwyddyn ar gyfer Cymru a Lloegr.²⁶ Mae'r ddwy wlad yn dangos ffafriaeth gynyddol dros gychwyn achosion gofal yn agosach at yr enedigaeth. Yn 2012/13 yn Lloegr, cafodd 44% o'r holl achosion plant bach eu cychwyn ar gyfer babanod newydd-anedig, ond erbyn 2019/20 roedd hyn wedi cynyddu i 50.9%. Yn yr un modd, yng Nghymru (ond gan ddangos cynnydd mwy), yn 2012/13, cafodd 38% o'r holl achosion plant bach eu cychwyn ar gyfer babanod newydd-anedig, ond erbyn 2019/20, roedd hyn wedi cynyddu i 50.8%.

Ffigur 1: Cyfran y plant bach a oedd yn destun achosion a.31 o fewn pythefnos cyntaf eu bywyd, yn ôl band oedran plant bach



²⁶ Amcangyfrifodd dull atchweliad llinol gyfran y babanod newydd-anedig yn erbyn gwlad, amser fel nifer y blynyddoedd ers 2012/13, a'r rhyngweithio rhwng gwledydd ac amseroedd. Cyfernodau atchwel: rhyngdoriad 40.00, Cymru -2.99, amser 1.43, Cymru: amser 0.52; gyda gwallau safonol 1.51, 2.13, 0.36 a 0.51; gwerthoedd-t 26.54, -1.40, 3.98 ac 1.01; a gwerthoedd-p <0.005, 0.185, 0.002 a 0.331, yn y drefn honno.

- Mae awdurdodau lleol yn cychwyn achosion gofal ar adeg y geni ar gyfer cyfran uwch o blant bach yng Nghymru a Lloegr.
- Ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf, yng Nghymru a Lloegr, mae ychydig dros hanner o'r holl achosion plant bach yn cael eu cychwyn ar gyfer babanod newydd-anedig.

Cyfraddau babanod newydd-anedig mewn achosion gofal

Gallai newidiadau yn nifer y babanod newydd-anedig sy'n destun achosion a.31 adlewyrchu newidiadau ym maint y boblogaeth, sef nifer y genedigaethau byw. Felly, yn Nhabl 2, rydym yn cyflwyno'r cyfraddau mynychder ar gyfer achosion babanod newydd-anedig (h.y. nifer y babanod newydd-anedig mewn achosion gofal fesul 10,000 o enedigaethau byw). Yn y flwyddyn ddiweddaraf, roedd babanod newydd-anedig yn destun achosion gofal ar gyfradd o 47.7 fesul 10,000 o enedigaethau byw yn Lloegr, a 68.3 fesul 10,000 o enedigaethau byw yng Nghymru.

Tabl 2: Cyfraddau mynychder ar gyfer babanod newydd-anedig sy'n destun achosion gofal a.31 fesul blwyddyn

	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Lloegr	34.9	33.2	30.0	32.9	41.2	45.8	46.5	47.7
Cymru	41.1	40.3	45.6	47.2	65.3	68.7	77.1	68.3


Ar draws ein cyfnod arsylwi, mae Cymru a Lloegr yn cofnodi cynnydd sylweddol mewn cyfraddau mynychder, gyda chynnydd cymharol cyfartalog bob blwyddyn o 6.6% a 10.4% yn y drefn honno. O ran rhagolwg, os yw'r gyfradd mynychder yn Lloegr yn parhau i gynyddu ar yr un cyflymder (h.y. 6.6% ar y flwyddyn flaenorol) yna yn 2020/21 rydym yn amcangyfrif, ar gyfer pob 10,000 o enedigaethau byw, y bydd 50.9 o fabanod newydd-anedig yn ymddangos mewn achosion gofal.²⁷ Mae Ffigur 2 yn dangos y duedd amcangyfrifedig fodel dros gyfnod yn deillio o atchweliad Poisson. Mae'r llinell duedd (lliw glas) yn troshaenu'r cyfraddau (gwirioneddol) a arsylwyd yn flynyddol, a ddehonglir gan y bariau llwyd.²⁸

Fel y gellir gweld o Ffigur 2, mae'r gyfradd ar gyfer babanod newydd-anedig sy'n destun achosion gofal yng Nghymru yn sylweddol uwch, o gymharu â Lloegr ac o edrych arnynt ar draws ein cyfnod arsylwi. Yn ogystal, mae'r gyfradd wedi bod yn cynyddu'n gyflymach yng Nghymru yn y blynyddoedd diwethaf, o gymharu â Lloegr. Fodd bynnag, yn y flwyddyn ddiweddaraf (2019/20), roedd y gyfradd yn is o lawer yng Nghymru, gan awgrymu efallai fod y duedd yn arafu. Mae'r gyfradd wedi gostwng o 77.1 fesul 10,000 (2018/19) i 68.3 fesul 10,000 (2019/20). O ystyried bod y gwriad hwn ond i'w weld yn y flwyddyn ddiweddaraf, bydd yn bwysig monitro'r duedd ar gyfer Cymru, yn hytrach na llunio casgliadau ar unwaith.

²⁷ Gwyddwn fod COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y llysoedd; fodd bynnag, drwy archwilio'r duedd, byddwn yn gallu asesu'r flwyddyn 2020/2021 yn erbyn ein hamcanestyniadau.

²⁸ Atchweliad Poisson o nifer y babanod newydd-anedig sy'n destun achosion a.31, wedi'i wrthbwysio gan nifer y genedigaethau byw, yn erbyn gwlad, amser mewn blynyddoedd ers 2012/13 a'r rhyngweithio rhwng amser a gwlad. Cyfernodau atchwel: rhyngdoriad -5.78, Cymru 0.24, amser 0.06 a Chymru: amser 0.03; gwallau safonol 0.01, 0.05, 0.003 a 0.01; gwerthoedd-z -426.97, 4.44, 20.85 a 2.88; gwerthoedd-p <0.005, <0.005, <0.005 a 0.004, yn y drefn honno.

Ffigur 2: Cyfraddau mynychder ar gyfer babanod newydd-anedig mewn achosion gofal a.31 dros gyfnod



Gwrandawiadau byr rybudd, brys ac ar yr un diwrnod

Roedd mwyafrif helaeth yr achosion o fabanod newydd-anedig a gynhwyswyd yn ein set ddata yn cofnodi math o wrandawriad byr rybudd (yn ôl y categorïau a ddefnyddir gan Cafcass). Yn 2019/20, fe wnaeth 86.3% o achosion yn Lloegr (tua 2,500), a 74.8% o achosion yng Nghymru (tua 150), gofnodi gwrandawriad byr rybudd (gweler Tabl 3). Felly, y norm ar hyn o bryd yw i awdurdodau lleol wneud cais am benderfyniadau brys (ac i'r llysoedd drefnu hynny) mewn achosion babanod newydd-anedig.

Yng Nghymru a Lloegr, mae partïon, yn nodweddiadol, yn cael rhybudd o rhwng un a dau ddiwrnod rhwng y cais a.31 a'r gwrandawriad cyntaf. Hynny yw, mae'r rhan fwyaf o achosion yn cofnodi gwrandawriad 'brys' yn ôl y derminoleg a ddefnyddir Cafcass. Yn Lloegr, lle cafodd 45.6% o'r holl achosion babanod newydd-anedig eu cychwyn gyda rhwng un a dau ddiwrnod o rybudd yn 2012/13, erbyn 2019/20 roedd y gyfran wedi cynyddu i 56%. Yng Nghymru, lle'r oedd 36.1% o'r holl achosion babanod newydd-anedig wedi'u cychwyn gyda rhwng un a dau ddiwrnod o rybudd, erbyn 2019/21, roedd y gyfran wedi cynyddu i 49.5%.

Tabl 3: Canran y babanod newydd-anedig sy'n destun achosion a.31 yn ôl diwrnodau o rybudd rhwng cychwyn achosion gofal a'r gwrandawriad cyntaf


Gwlad	Blwyddyn gyllidol	0 diwrnod	1-2 ddiwrnod	3-6 diwrnod	7+ diwrnod	Ar goll
		%	%	%	%	N
Lloegr	2012/13	9.3	45.6	37.2	7.9	11
	2013/14	9.3	46.1	28.5	16.1	11
	2014/15	12.8	49.1	18.9	19.3	11
	2015/16	16.9	48.3	15.7	19.1	17
	2016/17	16.9	51.1	15.7	16.3	17
	2017/18	16.4	55.9	14.0	13.8	16
	2018/19	18.2	57.4	13.0	11.4	17
	2019/20	18.5	56.0	11.8	13.7	17
Cymru	2012/13	6.2	36.1	41.0	16.7	<5
	2013/14	8.1	37.8	23.0	31.1	<5
	2014/15	12.8	50.0	15.5	21.6	5
	2015/16	15.4	51.9	14.7	17.9	<5
	2016/17	17.9	43.9	11.3	26.9	<5
	2017/18	22.0	49.1	6.9	22.0	<5
	2018/19	20.1	52.7	7.5	19.7	<5
	2019/20	16.8	49.5	8.4	25.2	<5

O ran gwrandawiadau ar yr un diwrnod (heb yr un diwrnod o rybudd), yng Nghymru a Lloegr, mae cyfran gweddol fawr o achosion babanod newydd-anedig yn cael eu cychwyn a'u clywed ar yr un diwrnod. O Tabl 3, mae'r flwyddyn ddiweddaraf (2019/20) yn dangos, mewn 18.5% o achosion yn Lloegr ac mewn 16.8% o achosion yng Nghymru, bod y gwrandawriad cyntaf yn cael ei wrando ar yr un diwrnod. Mae'r canrannau hyn yn gynnydd gweddol fawr o gymharu â'r canrannau ar ddechrau ein cyfnod arsylwi. Yn 2012/13, canrannau'r gwrandawiadau ar yr un diwrnod oedd 9.3% ar gyfer Lloegr a 6.2% ar gyfer Cymru.

Wrth gymharu Cymru a Lloegr, mae'r ddwy wlad yn debyg o ran cyfran y gwrandawiadau ar yr un diwrnod a'r gwrandawiadau byr rybudd, ac maent yn dangos tuedd debyg dros gyfnod. Dros gyfnod, mae cyfran fwy o achosion babanod newydd-anedig yn cofnodi gwrandawiadau ar yr un diwrnod yng Nghymru a Lloegr.²⁹ Mae canran yr achosion sy'n cofnodi gwrandawriad ar yr un diwrnod wedi cynyddu 1.4 ac 1.9 o bwyntiau canran ychwanegol bob blwyddyn yn y drefn honno. Yn 2019/2020, mae'r data'n dangos y bydd cais yn cael ei gyflwyno ar gyfer achos gofal mewn un o bob chwe achos, a bod y gwrandawriad cyntaf yn cael ei gynnal ar yr un diwrnod. Mae Ffigur 3 isod yn dangos y newidiadau yng nghyfrannau'r gwrandawiadau byr rybudd, brys ac ar yr un diwrnod rhwng 2012/13 a 2019/20.

²⁹ Cynhaliwyd dau atchweliad llinol syml, yn ymwneud â'r gyfran babanod newydd-anedig sy'n destun achosion a.31 o dan drefniadau byr rybudd/ar yr un diwrnod (gyda llai na saith niwrnod rhwng cyflwyno'r cais a dechrau'r gwrandawriad cyntaf, neu ar yr un diwrnod) yn erbyn gwlad, amser a'r rhyngweithio rhwng gwlad ac amser. Atchweliad llinol syml o achosion byr rybudd: rhyngdoriad 84.75, Cymru -7.96, amser 0.01 a Cymru: amser -0.11; gwallau safonol 3.06, 4.33, 0.73 ac 1.03; gwerthoedd-t 27.69, -1.84, 0.02 ac -0.11; a gwerthoedd-p <0.005, 0.091, 0.985 a 0.915, yn y drefn honno. Atchweliad llinol syml o achosion ar yr un diwrnod: rhyngdoriad 9.76, Cymru -1.80, amser 1.41 a Cymru: amser 0.53; gwallau safonol 1.54, 2.17, 0.37 a 0.52; gwerthoedd-t 6.35, -0.83, 3.84 ac 1.02; a gwerthoedd-p <0.005, 0.422, 0.002 a 0.326, yn y drefn honno.

Ffigur 3: Cyfran y gwrandawiadau byr rybudd, brys ac ar yr un diwrnod ar gyfer babanod newydd-anedig mewn achosion gofal a.31



Amrywiadau rhanbarthol

Cyfraddau mynychder

Ac eithrio Llundain, y darlun yw bod mynychder achosion babanod newydd-anedig yn cynyddu yng Nghymru ac ar draws holl ranbarthau Lloegr dros gyfnod (Tabl 4 a Ffigur 4). Yn Llundain, mae'r gyfradd mynychder yn gostwng ac, erbyn hyn, mae'n sylweddol is na'r holl ranbarthau eraill. Yn Llundain, roedd 24.9 o fabanod newydd-anedig fesul 10,000, yn destun achosion gofal yn 2019/20.

Mae cyfraddau mynychder yn cynyddu'n gyflymach mewn rhai ranbarthau o Loegr nag eraill. Y Gogledd Ddwyrain yw'r ranbarth sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf yn y gyfradd babanod newydd-anedig yn ymddangos mewn achosion gofal dros gyfnod, o gymharu â Chymru a holl ranbarthau eraill Lloegr. Yn y Gogledd Ddwyrain, mae cyfradd mynychder babanod newydd-anedig wedi cynyddu o 34.0 i 83.1 fesul 10,000 o enedigaethau byw ar draws ein cyfnod arsylwi wyth mlynedd. Mae hyn yn golygu, yn y Gogledd Ddwyrain, mai'r cynnydd cymharol cyfartalog yw 16.6% ar y flwyddyn flaenorol, ac mae'r gyfradd mynychder wedi dyblu a mwy dros gyfnod.

Mae nodweddion tebyg nodedig mewn tueddiadau rhwng Cymru a rhanbarth Gogledd Orllewin Lloegr.³⁰ P'un a ydym yn archwilio cyfraddau mynychder neu dueddiadau dros gyfnod, mae Cymru a'r Gogledd Orllewin yn hynod debyg ac yn cofnodi rhai o'r cyfraddau babanod newydd-anedig uchaf o'r holl ranbarthau. Pan gynhaliom brawf am arwyddocâd, nid oedd unrhyw wahaniaeth yn y gyfradd babanod newydd-anedig a oedd yn destun achosion a.31 rhwng Cymru a rhanbarth Gogledd Orllewin Lloegr. Yn 2019/20 fe wnaethant gofnodi cyfradd o 68.0 a 66.2 fesul 10,000 o enedigaethau byw yn y drefn honno.

Mae'n ddiddorol nodi, yn 2012/13, bod y gyfradd mynychder babanod newydd-anedig yn debyg ar gyfer Cymru a Gorllewin Canolbarth Lloegr a Swydd Efrog a Humber. Dros gyfnod, fodd bynnag, mae Cymru a'r rhanbarthau hyn wedi ymwahanu, am fod Gorllewin Canolbarth Lloegr a Swydd Efrog a Humber wedi gweld cynnydd llai mewn cyfraddau mynychder.

Tabl 4: Cyfraddau mynychder ar gyfer babanod newydd-anedig sy'n destun achosion gofal a.31, yn ôl rhanbarth (Lloegr) a Chymru


Rhanbarth	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20
Dwyrain Canolbarth Lloegr	37.2	38.4	33.3	34.9	46.2	54.9	57.8	55.3
Dwyrain Lloegr	31.6	25.8	25.5	31.7	37.1	42.7	39.8	37.4
Llundain	31.6	24.1	18.9	20.5	28.9	27.8	24.9	24.9
Gogledd Dwyrain	34.0	31.1	33.4	34.2	60.2	66.6	66.7	83.1
Gogledd Orllewin	38.3	44.7	45.1	48.5	53.3	59.7	66.9	66.2
De Dwyrain	29.9	25.5	22.8	26.1	30.9	34.0	35.5	39.6
De Orllewin	32.7	33.6	30.8	36.3	42.1	46.5	42.4	44.7
Gorllewin Canolbarth Lloegr	42.1	43.8	33.5	35.7	48.8	55.8	57.1	52.1
Swydd Efrog a Humber	47.5	45.1	43.9	47.1	53.7	62.7	61.7	69.3
Cymru	41.1	41.3	45.0	48.9	65.0	68.7	77.1	68.0

Y ddau ranbarth sy'n fwyaf nodedig, ar sail y dadansoddiad hwn, yw'r Gogledd Dwyrain a Llundain. Fel y disgrifiwyd yn flaenorol, mae Llundain yn wahanol iawn o ran babanod newydd-anedig mewn achosion gofal a thueddiadau dros gyfnod, gan ddangos cyfraddau mynychder nodedig o is gydag ychydig iawn o newid dros gyfnod. Mae Llundain yn cofnodi cyfradd o 24.9 fesul 10,000 o fabanod newydd-anedig yn 2019/20, sydd lawer yn llai na chyfradd rhanbarthau eraill.

Fodd bynnag, mae'r Gogledd Dwyrain yn dangos darlun i'r gwrthwyneb. Y Gogledd Dwyrain yw'r rhanbarth sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf yn y gyfradd babanod newydd-anedig sy'n ymddangos mewn achosion gofal dros gyfnod, o gymharu â Chymru a holl ranbarthau eraill Lloegr. Yn y Gogledd Dwyrain, mae cyfradd mynychder babanod newydd-anedig wedi cynyddu o 34.0 i 83.1 fesul 10,000 o enedigaethau byw ar draws ein cyfnod arsylwi wyth mlynedd. Mae hyn yn golygu, yn y Gogledd Dwyrain, mai'r cynnydd cymharol cyfartalog yw 16.6% ar y flwyddyn flaenorol; yn seiliedig ar y model ystadegol. Yn y Gogledd Dwyrain, nid oes unrhyw arwydd o unrhyw beth ond am gyfraddau cynyddol o fabanod newydd-anedig yn ymddangos mewn achosion gofal.

³⁰ Atchweliad Poisson o nifer y babanod newydd-anedig sy'n destun achosion a.31, wedi'i wrthbwysio gan nifer y genedigaethau byw, yn erbyn rhanbarth, amser mewn blynyddoedd ers 2012/13 a'r rhyngweithio rhwng rhanbarth ac amser. Cymru oedd y wlad gyfeirio.

Figur 4: Babanod newydd-anedig sy'n destun achosion a.31, y flwyddyn, ar draws rhanbarthau Lloegr a Chymru (cyfradd amcangyfrifedig fodel gyda chyfwng hyder o 95%)



* Mae cyfraddau arsylwi wedi'u cynyddu i atal datgelu niferoedd nach mewn dadansoddiadau dilynol

Gwrandawiadau byr rybudd, brys ac ar yr un diwrnod

Mae twf sylweddol wedi bod yng nghyfran y babanod newydd-anedig sy'n destun gwrandawiadau byr rybudd ym mhob ardal, ac eithrio Dwyrain Canolbarth Lloegr, lle mae cyfrannau cymharol mathau gwahanol o wrandawiadau byr rybudd yn sefydlog i raddau helaeth (gweler Ffigur 5). Ac eithrio'r Gogledd Ddwyrain, fe wnaeth y gyfran fwyaf o achosion babanod newydd-anedig gofnodi gwrandawiadau brys gyda rhybudd o rhwng un a dau ddiwrnod, ledled Cymru a Lloegr.

O ran y rhaniad rhwng gwrandawiadau byr rybudd a gwrandawiadau ar yr un diwrnod, mae llawer o ranbarthau Lloegr a Chymru yn dangos darlun tebyg. Yn gymharol â chyfran yr achosion byr rybudd ymhlith babanod newydd-anedig yng Nghymru, roedd pum rhanbarth yn Lloegr lle na welwyd unrhyw wahaniaeth sylweddol o ran maint neu duedd dros gyfnod; sef, Llundain, y Gogledd Orllewin, y De Ddwyrain, y De Orllewin, a Swydd Efrog a Humber.

Mae Cymru a dau ranbarth yn Lloegr (y Gogledd Ddwyrain a Swydd Efrog a Humber) yn dangos tuedd arwyddocaol am i fyny yn ystadegol yng nghyfran yr achosion sy'n cael eu gwrandawio heb yr un diwrnod o rybudd. Nid yw rhanbarthau eraill o Loegr yn cofnodi tuedd arwyddocaol yn ystadegol dros gyfnod.³¹

Dros gyfnod, mae cyfran yr achosion ar yr un diwrnod wedi dyblu yn y Gogledd Ddwyrain. Yn 2019/20, roedd 41.3% o fabanod newydd-anedig yn y rhanbarth yn destun gwrandawiadau heb yr un diwrnod o rybudd, sef y gyfran uchaf o bell ffordd ledled Cymru a Lloegr.

Er ei bod yn is nag yn y Gogledd Ddwyrain, mae tuedd am i fyny mewn achosion ar yr un diwrnod yn Swydd Efrog a Humber hefyd. Ar **26.8%** yn 2019/20, mae'r gyfran yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol: yn Swydd Efrog a Humber, mae un o bob pedwar achos yn cael ei gyhwyn ar yr un diwrnod, o gymharu ag un o bob chwech yn genedlaethol.


Mewn cyferbyniad, yn Llundain a'r De Ddwyrain, mae cyfran y gwrandawiadau ar yr un diwrnod yn is na rhanbarthau eraill o Loegr a Chymru, ac yn gyson is dros gyfnod. Yn Llundain, yn 2019/20, fe wnaeth llai na 10% o achosion gofnodi gwrandawiad ar yr un diwrnod (9.3%), ac yn y De Ddwyrain, mae'r ffigur oddeutu 10% (11.4%).

Ar draws yr holl ranbarthau, nid yw'n ymddangos bod unrhyw batrwm syml rhwng cyfraddau uchel o achosion babanod newydd-anedig a chyfran yr achosion sy'n cofnodi gwrandawiad ar yr un diwrnod. Er enghraifft, mae cyfradd mynychder uchel gan y Gogledd Orllewin—ac eto cyfran is o lawer o wrandawiadau ar yr un diwrnod â'r Gogledd Ddwyrain.

Mae dadansoddiad llawn o'r cyfrannau gwrandawiadau byr rybudd yn ôl rhanbarth, ar gyfer y flwyddyn ddiweddaraf (2019/20) i'w gael yn Atodiad. Mae Ffigur 5 isod, yn dangos yr un data.

³¹ Dau atchweliad llinol syml o gyfran babanod newydd-anedig sy'n destun achosion a.31 a roddwyd ar fyr rybudd/ar yr un diwrnod, gyda llai na 7 niwrnod rhwng cyflwyno'r cais a'r gwrandawiad cyntaf neu'r gwrandawiad cyntaf yn cael ei gynnal ar yr un diwrnod ag y cyflwynwyd y cais. Mae pob un wedi'i fodelu yn erbyn y rhanbarth, amser mewn nifer o flynyddoedd ers 2012/13, a'r rhyngweithio rhwng amser a rhanbarth.

Figur 5: Cyfran y babanod newydd-anedig sy'n destun achosion a.31 yn ôl nifer y diwrnodau o gychwyn achos gofal hyd at y gwrandawriad cyntaf, yn ôl blwyddyn, ac yn ôl rhanbarth (Cymru a Lloegr)



*Mae cyfrifiadau heb fod yn sero sy'n llai na 5 wedi'u talgrynnu i 5.

Gorchmynion amddiffyn brys yn Lloegr a symud ymlaen at achosion a.31

Nodom 13,119 o blant yn Lloegr y gwnaed cais am orchymyn amddiffyn brys (EPO) ar eu cyfer rhwng 2012 a 2020, ac o'r rheiny roedd 3,652 o geisiadau ar gyfer plant bach. O'r rhain, roedd 1,731 yn ymwneud â babanod newydd-anedig.

Roedd plant bach yn fwy tebygol o fod yn destun ceisiadau am EPO na phlant hŷn. Os oeddent yn destun cais am EPO, roedd yr holl blant yn debygol iawn o ymddangos fel testunau mewn achosion gofal o fewn cyfnod o 28 diwrnod (neu o fewn yr un achos). Nifer yr holl achosion a gofnododd cais a.31 ar ôl hynny oedd 86.1% ar gyfer yr holl blant (ar draws y blynyddoedd, 2012–2020). Ar gyfer plant bach, roedd ychydig yn uwch ar 89.0%, ac ar gyfer babanod newydd-anedig, roedd yn uwch fyth ar 90.4%.

Fodd bynnag, bob blwyddyn, ceir llawer mwy o geisiadau am achosion gofal nag am EPOs. Canfuom mai dim ond 6.5% o geisiadau gofal ar gyfer yr holl blant a gafodd eu rhagflaenu gan gais EPO. Ar gyfer plant bach a babanod newydd-anedig, roedd y darlun yn dangos canran fach iawn, debyg o achosion gofal, a ragflaenwyd gan EPO (7.3% ar gyfer plant bach, 7.7% ar gyfer babanod newydd-anedig). Felly, gan gymryd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn gyda'i gilydd, gallwn weld bod awdurdodau lleol yn dangos ffafriaeth gref dros achosion gofal byr rybudd, yn hytrach na thrwy EPO.

5. Trafodaeth

Rhoddodd adroddiad interim ac adroddiad terfynol y PLWG gryn sylw i geisiadau am wahanu babanod newydd-anedig a phlant bach, a gwrandawiadau byr rybudd mewn achosion gofal. Gyda chyhoeddi'r adroddiad terfynol ym mis Mawrth eleni (PLWG 2021), mae argymhellion wedi'u cytuno erbyn hyn sy'n amcanu at wella ymarfer. Roedd yr adroddiadau interim a therfynol yn galw am fwy o ymchwil a chasglu data ar geisiadau byr rybudd (brys) a gorchmynion amddiffyn brys. Darparodd Cafcass (Lloegr) giplun o ddata ar gyfer 2018. Yn yr adroddiad hwn, rydym wedi ymateb i'r ddau gais hyn ac wedi darparu data meincnodi ychwanegol i alluogi monitro cynnydd yn erbyn argymhellion PLWG. Yn y bennod olaf hon, rydym yn crynhoi'r prif ganfyddiadau cyn ystyried y goblygiadau polisi ac ymarfer.

Nifer, cyfran a chyfraddau mynychder babanod newydd-anedig mewn achosion gofal

Yn erbyn ein meincnodau gwreiddiol (Broadhurst et al. 2018; Alrouh et al. 2019), mae dadansoddiad empirig newydd, yn gyffredinol, yn canfod tuedd barhaus am i fyny yn nifer y ceisiadau a.31 ar gyfer babanod newydd-anedig ers 2012/13.

O ran cyfraddau mynychder, mae gwahaniaethau rhanbarthol yn parhau'n amlwg. Fel y gellid disgwyl, mae Llundain yn gwahaniaethu'n sylweddol iawn oddi wrth Gymru a llawer o ranbarthau Lloegr, yn benodol, y Gogledd Orllewin, y Gogledd Ddwyrain, a Swydd Efrog a Humber. Mewn adroddiad cynharach yn y gyfres *Mewn Gofal o'u Geni* (Mason a Broadhurst 2020), rhannodd ymarferwyr eu barnau ar y rhesymau posibl am hyn. Awgrymodd ymarferwyr fod y ffaith fod mwy o wasanaethau ataliol ar gael, fel lleoliadau mam a baban ac ansawdd yr eiriolaeth gyfreithiol, wedi arwain at lai o achosion plant bach yn cael eu cychwyn ar yr adeg geni yn Llundain.

Mae'r Gogledd Orllewin, y Gogledd Ddwyrain, Swydd Efrog a Humber, a Chymru, yn cofnodi'r cyfraddau mynychder uchaf, gyda thuedd gyffredinol am i fyny. Mae'r duedd fwyaf am i fyny yn y Gogledd Ddwyrain, lle'r oedd cyfraddau eisoes wedi bod ar ben uchaf y raddfa yn 2012/13. Yn 2019/20, mae'r gyfradd mynychder ar gyfer y Gogledd Ddwyrain dros deirgwaith yn uwch nag yn Llundain. Mae'n bwysig iawn nodi'r pwysau arbennig y mae'r Gogledd Ddwyrain yn ei wynebu. Mae cylchdaith y Gogledd Ddwyrain yn cofnodi'r nifer uchaf o dderbyniadau a cheisiadau cyfraith gyhoeddus nag unrhyw ranbarth arall yn genedlaethol. Nid oes adnoddau cynyddol wedi'u darparu i gyfateb i'r galw cynyddol. Mae hyn yn rhoi pwysau eithriadol ar staff y rheng flaen. Dim ond yn ail i Lundain yw'r cyfraddau tlodi yn y Gogledd Ddwyrain. Yn ôl dadansoddiad a gynhaliwyd gan Jonathan Bradshaw (2020), y Gogledd Ddwyrain yw'r rhanbarth â'r gyfran uchaf o aelwydydd lle nad yw teuluoedd yn gallu cadw eu cartrefi yn gynnes, neu lle nad ydynt yn gallu prynu eitemau i'r tŷ yn lle rhai sydd wedi treulio. Angenrheidiau sylfaenol ar gyfer magu plant a gofalu amdanynt yw'r rhain. Er bod nifer o fwrdeistrefi difreintiedig yn Llundain hefyd, o'n trafodaethau gyda chydweithwyr mewn ymateb i adroddiad cynharach yn y gyfres *Mewn Gofal o'u Geni*, rydym wedi clywed bod Llundain yn cael ei gwasanaethu'n well o ran adnoddau ataliol. O'n sgysiau cynharach mewn gweithdai gyda gweithwyr proffesiynol, mewn cyferbyniad â hynny, clywsom am wasanaethau ataliol gwantan ac angen cynyddol, gan adael gweithwyr cymdeithasol mewn sawl un o'r 13 awdurdod lleol yn y Gogledd Ddwyrain gydag adnoddau cyfyngedig i osgoi achosion gofal (Mason a Broadhurst

2020). Mae pocedi o ymarfer arloesol yn dod i'r amlwg yn y Gogledd Ddwyrain, a gall fod nad yw eu heffaith yn cael ei theimlo eto. Er enghraifft, yn Sunderland, mae gwasanaeth gwaith cymdeithasol cyn-geni pwrpasol wedi'i sefydlu. Mae'r her yn y Gogledd Ddwyrain i sicrhau'r un opsiynau ataliol ar gyfer gweithwyr proffesiynol a theuluoedd fel ei gilydd yn sylweddol, ac felly, nid yw'r canfyddiadau a gyflwynwn mewn perthynas â chyfraddau mynychder cynyddol plant bach mewn achosion gofal yn syndod.

Gan ganolbwyntio ar y data diweddaraf a gynhwyswyd yn yr astudiaeth hon, ac yn seiliedig ar ein gwaith modelu tueddiadau mewn achosion babanod newydd-anedig, mae twf yng Nghymru wedi arafu yn 2019/20. Gwyddom o'n hymgysylltiad â gweithwyr proffesiynol fod gwasanaethau ataliol newydd ac arloesol yn cael eu sefydlu mewn rhai ardaloedd lle ceir yr angen mwyaf. Erbyn hyn, mae nifer o fentrau newydd yn darparu cymorth dwys yn ystod beichiogrwydd a/neu yn ystod blwyddyn gyntaf bywyd plentyn bach. Mae enghreifftiau'n cynnwys Jig-So (Abertawe), Babi a Fi (Casnewydd), a Meddwl am y Baban (Pen-y-bont ar Ogwr). Yn ogystal, mae'r prosiect Reflect yn parhau i ehangu, ac mae'n helpu rhieni i gael mynediad at wasanaethau adsefydlu os yw plentyn wedi'i wahanu o'u gofal, yn ogystal â help i wybod yn glir iawn beth sydd angen ei newid os ydynt i ofalu am blant yn y dyfodol. Mae'n debygol bod y gwasanaethau newydd hyn, sy'n nodweddiadol o ddwys, eisoes yn cyflawni buddion cadarnhaol trwy gefnogi gallu i rianta.³² Yn sicr, byddai tystiolaeth werthusol gynnar a rannwyd gyda'r tîm yn awgrymu bod hyn yn wir.³² Fodd bynnag, o ystyried mai dim ond yn y flwyddyn ddiwethaf y mae'r newid yn y gyfradd mynychder ar gyfer Cymru wedi dod i'r amlwg, dylem fonitro'r gwyro hwn o'r duedd ymhellach, yn hytrach na llunio casgliadau pendant. Mae'n bwysig nodi hefyd, hyd yma, bod y gwasanaethau dwys yng Nghymru yn y cyfnod cyn-geni yn wahanol iawn ar draws rhanbarthau, sy'n golygu mai mynediad anghyfartal sydd gan rieni i'r math o gymorth dwys sydd ei angen i gyflawni newid.

Gwrandawiadau byr rybudd

Mae'r dadansoddiadau data a ddarparwyd yn yr adroddiad hwn yn canfod bod ceisiadau am benderfyniadau cyflymach mewn achosion gofal wedi cynyddu dros yr wyth mlynedd diwethaf ac mai dyma yw'r norm bellach; mae dros 86% o'r holl achosion babanod newydd-anedig yn cofnodi gwrandawiadau byr rybudd yn Lloegr, a dros 74% yng Nghymru. Mae'r darlun yn debyg iawn ar gyfer Cymru a Lloegr. Yn ogystal, rydym wedi gallu pennu mai'r cyfnod rhybudd nodweddiadol yw rhwng un a dau ddiwrnod mewn achosion babanod newydd-anedig (gwrandawiadau brys).

Yng Nghymru a sawl rhanbarth o Loegr, mae cyfran y gwrandawiadau cyntaf ar yr un diwrnod (heb yr un diwrnod o rybudd) yn cynyddu hefyd. Fel y dywedwyd uchod, mae angen i awdurdodau lleol geisio caniatâd gan y llys i gwtogi rhybudd, ond o'r dystiolaeth hon, gallwn weld bod gwrandawiadau ar yr un diwrnod bellach yn cael eu sancsiynu gan y llysoedd mewn rhyw un o bob chwech o achosion babanod newydd-anedig yng Nghymru a Lloegr. Felly, mae cyfran gweddol fawr o achosion yn cael eu gwrandao heb yr un diwrnod o rybudd.

Mae'r darlun ar gyfer y Gogledd Ddwyrain yn peri pryder eto. Mae dros 40% o wrandawiadau'n ymwneud â babanod newydd-anedig yn cael eu clywed ar yr un diwrnod erbyn hyn. Wrth gwrs, mae'n debygol iawn bod cydgysylltiad rhwng y gyfradd gynyddol o fabanod newydd-anedig

³² Nid yw tystiolaeth werthusol wedi'i chyhoeddi eto. Fodd bynnag, bydd ymarferwyr yn cael eu gwahodd i rannu mewnwelediadau cynnar fel rhan o broses lansio'r adroddiad hwn.

mewn achosion gofal yn y Gogledd Ddwyrain a'r twf mewn gwrandawiadau ar yr un diwrnod. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi, er bod cyfraddau mynychder yn y Gogledd Orllewin yn parhau'n uchel, nid ydym yn gweld cynnydd cyfatebol mewn gwrandawiadau ar yr un diwrnod. Wrth gwrs, ni ddylem neidio i gasgliadau cyn pryd ynglŷn â chanlyniadau gwrandawiadau ar yr un diwrnod; yn hytrach, mae'r ystadegau a gyflwynwn yn darparu ffocysau pwysig, ar gyfer dadansoddi ardaloedd lleol. Mae'r canfyddiadau a gyflwynwyd gennym mewn perthynas â'r Gogledd Ddwyrain yn gofyn am ddadansoddiad manwl ar lefel ardal leol, er mwyn datblygu mewnwelediadau ymhellach ac archwilio'r ymarfer y tu ôl i'r ystadegau hyn. Hefyd, o ystyried y wybodaeth sydd gennym am rai ymagweddau newydd at ymarfer cyn-geni yn y Gogledd Ddwyrain, mae'n hanfodol bod effaith ymagweddau newydd yn cael ei gwerthuso. Gall arferion fel sut mae'r llysoedd yn rhestru achosion brys, er enghraifft, ddylanwadu ar yr ystadegau, ond heb adolygiad ansoddol manylach o ymarfer, mae'r cyfryw ffactorau yn anodd eu dirnad.

Ar hyn o bryd, mae gwahaniaethau rhanbarthol yn y defnydd o wrandawiadau, heb yr un diwrnod o rybudd i rieni yng Nghymru a Lloegr, yn awgrymu bod cryn annhegwch o ran yr amser a roddir i rieni gyfarwyddo cyfreithiwr ac ymgysylltu â phroses y llys mewn modd ystyrlon. Fodd bynnag, mae cwestiynau y mae'r adroddiad hwn yn eu codi ynglŷn â gwrandawiadau byr rybudd yn fwy perthnasol yn gyffredinol, gan ystyried mai rhybudd o rhwng un a dau ddiwrnod yw'r math mwyaf nodweddiadol o wrandawiad byr rybudd yng Nghymru a Lloegr.

Gorchmynion amddiffyn brys

Mae'r dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn gwrthbrofi pryderon nad yw plant sy'n ymddangos mewn ceisiadau EPO yn ymddangos mewn achosion gofal ar ôl hynny. Yn Lloegr, ar gyfer plant bach a phlant hŷn sy'n destun cais a.44, bydd y mwyafrif o bell ffordd yn ymddangos mewn achosion gofal a.31 ar ôl hynny o fewn 28 diwrnod (neu o fewn yr un achos). O ran plant bach, mewn 89% o achosion, mae cais a.31 yn dilyn cais a.44. O ran yr holl blant, 86% yw'r ganran. Felly, nid yw'n ymddangos bod llawer o enghreifftiau o geisiadau EPO diwarant yn cael eu gwneud yn Lloegr. Nid yw'r defnydd cyfyngedig o EPOs yn syndod, o ystyried cyngor barnwrol cryf y dylai eu defnydd gael ei gyfyngu i amgylchiadau lle mae angen amddiffyn y plentyn ar frys (gweler Ryan a Cook 2020 am drafodaeth lawnach).

Yn Lloegr, fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o geisiadau a.31 yn cael eu rhagflaenu gan gais a.44. Wrth roi ein canfyddiadau at ei gilydd, mae'n fwy tebygol o lawer bod awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr yn delio â sefyllfaoedd brys/argyfwng drwy ofyn am benderfyniadau cynharach mewn achosion gofal, yn hytrach na gwneud cais am EPO. Ar sail y data a gyflwynwyd yn yr adroddiad hwn, nid ydym yn gwybod beth yw'r rhesymau y tu ôl i'r dewis hwn. Fodd bynnag, mae para. 162 o adroddiad interim PLWG (tud.76, 2019) yn nodi'r barnau barnwrol a phroffesiynol gwahanol parhaus o ran pa lwybr cyfreithiol yw'r un mwy priodol (EPO neu ICO) ac mae'r mater yn parhau heb ei ddatrys. Gellid dadlau, pa lwybr bynnag a ddewisir, bod yr un pryder yn berthnasol: cyfle cyfyngedig iawn y mae rhybudd byr yn ei roi i rieni geisio cynrychiolaeth gyfreithiol, sy'n hanfodol i dreial teg.

Clywsom gan ymarferwyr yng Nghymru fod EPOs yn debygol o gael eu dilyn gan achosion gofal hefyd. Fodd bynnag, nid ydym wedi gallu defnyddio data Cymru i brofi'r haerriad hwn. Er bod data EPO yn cael ei gasglu'n systematig, mae niferoedd yn rhy fach i alluogi gwneud dadansoddiad ystadegol ystyrlon, a byddai Banc Data SAIL yn ystyried bod hynny'n ddadlennol.

Goblygiadau polisi ac ymarfer cenedlaethol

Os gwrandawiadau ar yr un diwrnod neu wrandawiadau brys yw'r norm mewn achosion babanod newydd-anedig yng Nghymru a Lloegr bellach, yna mae hyn yn awgrymu bod angen adolygiad helaeth o'r modd y cynhelir achosion gofal ar yr adeg geni. Mae'n anodd llunio unrhyw gasgliad heblaw bod amharu sylweddol ar hawliau Erthygl 6 rhieni, o ystyried bod yr holl wrandawiadau a gofnodwyd gennym wedi'u cynnal yn gynnar eithriadol yn y cyfnod ar ôl geni. At hynny, nid yw gweithredu byr rybudd er budd pennaf plant bach ychwaith lle mae gwaith annigonol wedi'i wneud i gynllunio lleoliadau. Mae'r cyngor a gawsom gan warcheidwaid plant yn peri pryder arbennig; maent yn teimlo nad ydynt yn gallu herio ceisiadau am wahanu dros dro mewn gwrandawiadau ICO brys, lle rhoddwyd rhybudd annigonol i alluogi rhieni gael eu gweld ac adolygu'r achos yn llawnach. Mewn rhai achosion, gall hyn arwain at blant bach yn cael eu tynnu o ofal rhieni i ofal maeth, dim ond i gael eu lleoli'n ddiweddarach gydag aelodau'r teulu. Mae cydweithwyr Cafcass wedi argymhell bod gwaith ychwanegol yn cael ei wneud ar lwybrau plant bach, gyda ffocws penodol ar symudiadau lleoliadau, er mwyn archwilio'r pryder hwn yn systematig.

Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo, dan arweiniad Prifysgol Caerhirfryn gyda Phrifysgol Rhydychen, i wella'r rhyngwyneb rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau iechyd lle mae achosion gofal yn cael eu cychwyn adeg y geni yng Nghymru a Lloegr.³³ Mae canllawiau cynhwysol newydd (cyfeirir atynt fel 'protocol' yn adroddiad terfynol PLWG) yn cael eu datblygu'n gynhwysol trwy ymgysylltiad manwl ag wyth ymddiriedolaeth ysbyty ac awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr. Bydd papur canfyddiadau cyntaf yn cael ei gyhoeddi yn yr haf a bydd y canllawiau drafft yn cael eu cyhoeddi ym mis Awst eleni. O ran y broses gyfreithiol, fodd bynnag, mae'r canfyddiadau a gyflwynwn yn awgrymu bod angen i'r broses gyfreithiol ei hun gael ystyriaeth bellach a brys.

Gallai llawer o'r argymhellion pwysig a amlinellir yn adroddiad terfynol y PLWG gyflawni ymarfer gwell, gan alluogi gwneud penderfyniadau mwy amserol a chynhwysol i blant bach a rhieni, lle cânt eu gweithredu'n ddigonol. Mae argymhellion yn cynnwys:

- defnydd gwell a mwy amserol o'r broses cyn-achos/Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO)
- ffurflen wybodaeth newydd sy'n mynnu bod y sail ar gyfer gwrandawriad ICO brys yn cael ei nodi'n glir
- hysbysiad cynnar i Cafcass a Cafcass Cymru cyn-genï
- adolygiad o fynediad rhieni at gyngor cyfreithiol cyn-achos.

O ran rhieni, fodd bynnag, a yw'r argymhellion yn mynd yn ddigon pell? Mae'n debygol iawn y bydd cyfran gweddol fawr o achosion babanod newydd-anedig yn parhau i gynnwys ceisiadau i'r llys am wrandawiadau brys. Mewn achosion lle mae plant bach o dan flwydd oed yn mynd i gael gofal fel gwasanaeth cymorth teulu, bydd yn briodol adfer y defnydd o a.20/a.76. Fodd bynnag, fel y noda PLWG yn glir, lle mae'r trothwy yn cael ei fodloni ar gyfer ymyrraeth orfodol yn sgil niwed sylweddol gwirioneddol neu debygol, yna mae'n rhaid i'r llys oruchwylio'r achos. Yn yr amgylchiadau olaf, rydym yn dal i wynebu'r mater moesegol na allwn, yn y cyfnod uniongyrchol ar ôl geni, ddisgwyl yn rhesymol i famau sy'n rhoi genedigaeth gyfranogi'n ystyrlon mewn achosion gofal. Mewn adroddiadau cynharach yn y gyfres *Mewn Gofal o'u Geni*,

³³ Mae gwybodaeth am y prosiect ar gael yn: <https://www.lancaster.ac.uk/sociology/news/born-into-care-towards-inclusive-guidelines-when-the-state-intervenes-at-birth>

darparom dystiolaeth newydd yn ymwneud ag anawsterau iechyd meddwl dwys i famau mewn achosion gofal, o gymharu â mamau yn y boblogaeth gyffredinol (Griffiths et al. 2020b; 2021). Canfu'r adroddiadau bod gan fenywod mewn achosion gofal gyfraddau uwch o anghenion iechyd meddwl, cyn ac yn ystod beichiogrwydd, o gymharu â grwpiau cymharu a gydweddwyd. O ystyried y dystiolaeth gadarn hon o anghenion iechyd meddwl, mae cwestiynau ynglŷn â thegwch gweithdrefnol yn yr achosion hyn yn rhai mwy dybryd fyth. Mae'r un peth yn berthnasol i rieni y mae angen gwasanaethau dehonglydd arnyn nhw, rhieni ag anabledd dysgu neu, yn wir, rhieni ifanc iawn.³⁴ Er bod arweiniad wedi'i gyhoeddi yn ymwneud â rhieni ag anableddau dysgu er enghraifft, nid yw'n eglur sut mae'r cyfryw arweiniad yn cael ei gymhwyso pan fydd achosion yn cael eu gwrandao ar frys.^{35,36} Yn gyffredinol, mae pryderon hirsefydlog fod rhieni yn gweld proses, iaith a phrotocolau'r system cyfiawnder teuluol yn anodd iawn eu deall (Hunt 2010; Broadhurst et al. 2017). Er bod y defnydd o EPOs a'r cwestiwn rhybudd i rieni wedi bod yn destun craffu a sylwadau barnwrol sylweddol (fel uchod), ni ellir dweud yr un peth ar gyfer gwrandawriadau brys neu wrandawriadau ar yr un diwrnod, sydd, gellid dadlau, yn codi pryderon tebyg iawn o ran yr amser a roddir i rieni gyfarwyddo cyfreithiwr ac ymgysylltu ag achos llys.

Ers gweithredu Deddf Plant 1989, nid oes unrhyw adolygiad wedi'i gynnal o achosion gofal adeg geni. Ym mharagraff 120 o'r adroddiad terfynol gan PLWG, gwneir y datganiad canlynol:

Mae mynychder ac effaith ceisiadau sy'n ceisio gwahanu babanod newydd-anedig mor fawr fod y mater hwn yn teilyngu ei drafod ymhellach. Cydnabyddir bod y rhain yn feysydd hollbwysig, anodd a dadleuol o bosibl, ond ni ddylai hynny atal y drafodaeth (para.120, tud. 51, 2021).

Pan gyfunwn dystiolaeth o'r gyfres *Mewn Gofal o'u Geni* hyd yma, sy'n cynnwys mwy a mwy o fabanod yn destun achosion adeg geni, rydym o'r farn bod achos dros gynnal adolygiad mwy sylfaenol o achosion gofal adeg geni.

³⁴ Gweler Tarleton et al. 2006, The Baring Foundation: Finding the Rights Support (Pennod 8): <http://www.bristol.ac.uk/media-library/sites/sps/migrated/documents/rightsupport.pdf>

³⁵ Gweler y Rheolau Trefniadaeth Teulu Rhan 3A a PD3AA – Vulnerable persons participation in proceedings and giving evidence. Mae enghreifftiau o gyfraith achosion berthnasol yn cynnwys: *Re D (Non-Availability of Legal Aid)* (No 2) [2015] EWFC 2, [2015] 1 FLR 1247 a *Re D (Adoption)* (No 3) [2016] EWFC 1, [2017] 1 FLR 237

³⁶ Mae hyn yn adlewyrchu tuedd gyffredinol yn y system cyfiawnder teuluol, i ganllawiau rhagorol gael eu cyhoeddi, ond heb gael eu gwerthuso'n systematig o angenrheidrwydd am eu heffaith ar ymarfer.

Rhestr achosion

Re G (Children: fair hearing) [2019] EWCA Civ 126
X Council v B (Emergency Protection Orders) [2004] EWHC 2015 (Fam)
N (Children) (Adoption: Jurisdiction) [2015] EWCA Civ 1112 a [2016] 2 WLR 713
Williams v The London Borough of Hackney [2018] UKSC 37
Re D (Non-Availability of Legal Aid) (No 2) [2015] EWFC 2, [2015] 1 FLR 1247 a Re D
(Adoption) (No 3) [2016] EWFC 1, [2017] 1 FLR 237

Cyfeiriadau

Alrouh, B. et al. (2019). *Mewn gofal o'u geni: Babanod newydd-anedig a phlant bach mewn achosion gofal yng Nghymru*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Bedston, S., Pearson, R.J., Jay, M.A., Broadhurst, K., Gilbert, R., a Wijlaars, L. (2020). Data resource: Children and Family Court Advisory and Support Service (Cafcass) public family law administrative records in England. *International Journal of Population Data Science*, 5 (1) doi: 10.23889/ijpds.v5i1.1159.

Bradshaw, J. (2020). *Child poverty in the North East region* [cyflwyniad]. Child Poverty Action Group. Ar gael o:
<https://cpag.org.uk/sites/default/files/files/policypost/Child%20poverty%20in%20the%20NE.pdf>

Broadhurst, K. et al. (2017). *Vulnerable birth mothers and recurrent care proceedings*. Llundain: Sefydliad Nuffield.

Broadhurst, K. et al. (2018). *Born into care: Newborns in care proceedings in England*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

R Core Team. (2015). *R: A language and environment for statistical computing*. Ar gael o:
<https://www.r-project.org/>

Yr Adran Addysg (2020). Outcomes for children looked after by local authorities in England, 31 Mawrth 2019: additional tables [online]. *National statistics*. Ar gael o:
www.gov.uk/government/statistics/outcomes-for-children-looked-after-by-local-authorities-31-march-2019 [Darllenwyd 10 Mawrth 2021].

Grŵp Hawliau'r Teulu. (2018). *Care crisis review: Options for change*. Llundain: Grŵp Hawliau'r Teulu.

Ford, D.V. et al. (2009). The SAIL Databank: building a national architecture for e- health research and evaluation. *BMC Health Services Research* 9 (1) tud.157.

Grolemund, G. a Wickham, H. (2011). Dates and times made easy with lubridate. *Journal of Statistical Software*, 40(3), 1–25.

Griffiths, L.J. et al. (2020a). *Mewn gofal o'u geni: Mil o famau mewn achosion gofal yng Nghymru*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Griffiths, L.J. et al. (2020b). Maternal health, pregnancy and birth outcomes for women involved in care proceedings in Wales: a linked data study. *BMC pregnancy and childbirth*, 20(1), tud.1–13.

Griffiths, L., Johnson, R., Broadhurst, K., a John, A. (2021). *Born into care: A focus on maternal mental health*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Hunt, J. (2010). *Parental perspectives on the family justice system in England Wales: a review of research*. Ar gael o: https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/JCO/Documents/FJC/Publications/Parental_Perspectives_final.pdf [Darllenwyd 13 Ebrill 2021].

Jay, M.A., Woodman, J., Broadhurst, K., a Gilbert, R. (2017). *Who Cares for Children: Population data for family justice research*. Ar gael o: <http://wp.lancs.ac.uk/observatory-scoping-study/files/2017/10/FJO-NATIONAL-DATA-SCOPING-FINAL.pdf> [Darllenwyd 13 Ebrill 2021].

Johnson, R.D. et al. (2020). Data resource: population level family justice administrative data with opportunities for data linkage. *International Journal of Population Data Science*, 9, tud.1339.

Jones, K.H., Ford, D.V., a Lyons, R.A. (2017). *The SAIL Databank: 10 years of spearheading data privacy and research utility, 2007–2017*. <http://dx.doi.org/10.23889/sail-databank.1001101>. Abertawe: Prifysgol Abertawe.

Lushey, C., Barlow, J., Rayns, G., a Ward, H. (2018). Assessing parental capacity when there are concerns about an unborn child: pre-birth assessment guidance and practice in England. *Child Abuse Review*, 27(2), tud. 97–107.

Lyons, R.A. et al. (2009). The SAIL Databank: linking multiple health and social care datasets. *BMC Medical Informatics and Decision Making* 2009; 9:3. Ar gael o: <http://www.biomedcentral.com/1472-6947/9/3> [Darllenwyd 13 Ebrill 2021].

Madsen, H. a Thyregod, P. (2010). *Introduction to General and Generalized Linear Models*. Boca Raton, Florida: CRC Press.

Mason, C. a Broadhurst, K. (2020). *Discussion paper: What explains marked regional variations in infant care proceedings*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Masson, J. (2006). Fair trials in child protection, *Journal of Social Welfare and Family Law*, 28:1, tud.15–30.

Masson, J.M., McGovern, D., Pick, K., a Winn Oakley, M. (2007). *Protecting Powers: Emergency Intervention for Children's Protection*. Chichester: John Wiley & Sons Ltd.

Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus. (2019). *Recommendations to achieve best practice in the child protection and family justice systems*. Adroddiad interim. Ar gael o:
<https://www.judiciary.uk/wp-content/uploads/2019/07/Public-Law-Working-Group-Child-Protection-and-Family-Justice-2019-1.pdf> [Darllenwyd 13 Ebrill 2021].

Gweithgor Cyfraith Gyhoeddus. (2021). *Recommendations to achieve best practice in the child protection and family justice systems*. Ar gael o:
<https://www.judiciary.uk/publications/message-from-the-president-of-the-family-division-publication-of-the-presidents-public-law-working-group-report/> [Darllenwyd 13 Ebrill 2021].

Ryan, M. a Cook, M. (2019). *Born into care: case law review*. Llundain: Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Trowler, I., White, S., Webb, C., a Leigh, J.T. (2018). *Care proceedings in England. The case for clear blue water*. Ar gael o:
https://www.sheffield.ac.uk/polopoly_fs/1.808960!/file/Clear_Blue_Water_Policy_Briefing.pdf [Darllenwyd 13 Ebrill 2021].

StatsCymru. (2021). *Children receiving care and support* [Data set]. StatsCymru. Ar gael o:
<https://statswales.gov.wales/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Childrens-Services/children-receiving-care-and-support/childrenreceivingcareandsupport> [Darllenwyd 1 Ebrill 2021].

Wickham, H., et al. (2019). Welcome to the Tidyverse. *Journal of Open Source Software*, 4(43), 1686, <https://doi.org/10.21105/joss.01686>

Atodiad

Tabl A.1: Canran y plant bach sy'n destun achosion gofal a.31 yn ôl oedran yn 2019/20

Oed	Lloegr	Cymru
<2 wythnos	50.9	50.8
2–3 wythnos	7.5	9.2
4–12 wythnos	12.5	13.5
13–25 wythnos	12.5	11.2
26–38 wythnos	8.6	7.2
39–52 wythnos	8.0	8.0

Tabl A.2: Canran y babanod newydd-anedig sy'n destun achosion gofal a.31 yn ôl nifer diwrnodau rhybudd rhwng dyddiad cyflwyno'r cais a dyddiad y gwrandawriad cyntaf yn 2019/20

Diwrnodau rhybudd	Lloegr	Cymru
0 diwrnod	18.5	16.8
1–2 ddiwrnod	56.0	49.5
3–6 diwrnod	11.8	8.4
7+ diwrnod	13.7	25.2

Table A.3: Canran y babanod newydd-anedig sy'n destun achosion gofal a.31 yn ôl nifer diwrnodau rhybudd rhwng dyddiad cyflwyno'r cais a dyddiad y gwrandawriad cyntaf ynn 2019/20, yng Nghymru ac yn ôl rhanbarth (Lloegr)

Rhanbarth	0 diwrnod	1–2 ddiwrnod	3–6 diwrnod	7+ diwrnod
Dwyrain Canolbarth Lloegr	16.3	53.0	9.6	21.1
Dwyrain Lloegr	18.8	60.4	9.2	11.6
Llundain	9.3	63.6	17.5	9.6
Gogledd Ddwyrain	41.3	30.5	6.6	21.6
Gogledd Orllewin	16.5	63.9	8.7	10.8
De Ddwyrain	11.4	58.7	20.4	9.5
De Orllewin	14.6	55.4	11.2	18.9
Cymru	16.9	49.3	8.5	25.4
Gorllewin Canolbarth Lloegr	16.9	58.9	14.3	9.9
Swydd Efrog a Humber	26.8	48.6	8.2	16.4

Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield

Nod Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yw cefnogi'r penderfyniadau gorau posibl i blant trwy wella'r defnydd o ddata a thystiolaeth ymchwil yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Gan ymdrin â chyfraith gyhoeddus a phreifat, mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield yn darparu gwaith dadansoddi ac ymchwil hygyrch i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y llysoedd teulu.

Sefydlwyd Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield gan Sefydliad Nuffield, sef ymddiriedolaeth elusennol annibynnol sy'n ceisio hybu lles cymdeithasol. Mae'r Sefydliad yn ariannu ymchwil sy'n llywio polisi cymdeithasol, a hynny'n bennaf ym meysydd addysg, lles, a chyfiawnder. Mae hefyd yn ariannu rhaglenni myfyrwyr er mwyn i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a hyder mewn dulliau meintiol a gwyddonol. Sefydliad Nuffield yw sylfaenydd a chyd-ariannwr Sefydliad Ada Lovelace a Chyngor Biofoeseg Nuffield.

Mae Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield wedi ariannu'r prosiect hwn, ond safbwyntiau'r awduron yw'r rhai a fynegir ac nid, o reidrwydd, rhai Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield na'r Sefydliad.

Bartneriaeth Ddata Cyfiawnder Teuluol

Mae'r Bartneriaeth Ddata Cyfiawnder Teuluol yn gydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe, ac mae Cafcass a Cafcass Cymru yn rhanddeiliaid cyfannol. Fe'i hariennir gan ACT Nuffield.

Banc Data SAIL

Mae'r data gan Cafcass [Lloegr] a Cafcass Cymru a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon ar gael ym Manc Data Cyswllt Diogel Gwybodaeth Ddienw (SAIL) ym Mhrifysgol Abertawe, y DU, sy'n rhan o seilwaith ymchwil cofnodion e-iechyd cenedlaethol Cymru. Mae'n rhaid i bob cynnig i ddefnyddio'r data hwn gael ei adolygu a'i gymeradwyo gan Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP) SAIL. Pan ganiateir mynediad, fe'i ceir trwy hafan ddiogel sy'n diogelu preifatrwydd a system mynediad o bell, y cyfeirir ati fel Porth SAIL. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyrchu data ddilyn canllawiau'r broses ymgeisio sydd ar gael yn: www.saildatabank.com/application-process